



# Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Bro Morgannwg

# Adroddiad Blynyddol 2019



## Cynnwys:

Adran 1: Cyflwyniad .....	2
Adran 2: Ein Hamcanion a'n Cynnydd o ran Llesiant .....	4
Amcan Un – Galluogi pobl i gymryd rhan, ymgysylltu yn eu cymunedau lleol a llywio gwasanaethau lleol (Arweinydd Strategol: Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru) .....	4
Amcan Dau - Lleihau tloidi a mynd i'r afael ag anghydraddoldeb sy'n gysylltiedig ag amddifadedd (Arweinydd Strategol: Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro) .....	5
Amcan Tri – Rhoi'r cychwyn gorau mewn bywyd i blant (Arweinydd Strategol: Cyngor Bro Morgannwg) .....	6
Amcan Pedwar – Diogelu, gwella a gwerthfawrogi ein hamgylchedd (Arweinydd Strategol: Cyfoeth Naturiol Cymru) .....	6
Adran 3: Astudiaethau Achos .....	8
Astudiaeth Achos 1: Ymgorffori Hawliau'r Plentyn .....	8
Astudiaeth Achos 2: Gwasanaeth Cydlynu Cam-drin Domestig, Asesu ac Atgyfeirio (GCCDAA) ....	9
Astudiaeth Achos 3: Ymchwil Anghydraddoldeb .....	10
.....	11
Astudiaeth Achos 4: Bwyd y Fro .....	11
Astudiaeth Achos 5: Rheoli Asedau .....	12
Astudiaeth Achos 2 Tîm Rhianta'r Fro .....	13
Adran 4: Datblygu ein Sail Dystiolaeth .....	14
Adran 5: Casgliad .....	15


## Adran 1: Cyflwyniad

Dyma Adroddiad Blynyddol cyntaf Ein Bro, sef Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Bro Morgannwg (BGC) a sefydlwyd ym mis Ebrill 2016. Mae'r BGC yn dwyn ynghyd uwch arweinwyr o fudiadau cyhoeddus a thrydydd sector ar draws Bro Morgannwg er mwyn gweithio mewn partneriaeth ar gyfer dyfodol gwell.



Mae partneriaid y BGC wedi gwneud ymrwymiad i weithio gyda'i gilydd i wella gwasanaethau a llesiant ar draws Bro Morgannwg. Mae'r BGC wedi nodi ei flaenoriaethau drwy ei Gynllun Llesiant a gyhoeddwyd ym mis Mai 2018.

Mae'r Cynllun yn nodi gweledigaeth hirdymor y BGC ar gyfer blaenoriaethau'r Fro o ran gwella llesiant lleol i bobl o bob oed ac ym mhob ardal o'r Fro. Mae mwy o wybodaeth am y BGC a'r Cynllun Llesiant ar [Wefan y BGC](#).



Mae'r Adroddiad Blynyddol hwn yn rhoi manylion y cynnydd a wnaed ym mlwyddyn gyntaf y Cynllun Llesiant. Canolbwyntir yn sylweddol ar sicrhau ein bod yn sefydlu'r pum ffordd o weithio ar draws y BGC a thrwy gyflawni'r Cynllun Llesiant.



Mae'r berthynas waith rhwng partneriaid yn parhau i ddatblygu gyda gwell dealltwriaeth o'r hyn y gall pob partner ei gyfrannu a'r heriau a wynebwn ar y cyd ac fel sefydliadau unigol.

Mae'r BGC wedi elwa ar yr ystod eang o ddigwyddiadau, cyngor a dulliau a ddatblygwyd gan Lywodraeth Cymru a Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol; rydym yn cydnabod bod angen i'r bartneriaeth ddatblygu ymhellach, i fanteisio ar arloesedd, a deall ble y gall ychwanegu gwerth mewn gwirionedd. Mae hyn yn cynnwys ymchwilio ymhellach i'r ffordd y mae'n cysylltu â'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol a Phrifddinas-Ranbarth Caerdydd ac ystyried ei rôl yn y Fro a rhanbarth ehangach De Cymru.

Mae gan rai Cynghorau Tref a Chymunedol ddyletswydd o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol i ddangos sut maent yn helpu i weithio tuag at amcanion llesiant y BGC. Yn y Fro, mae Cynghorau Tref y Barri, Llanilltud Fawr a Phenarth yn dod o dan y ddyletswydd hon ac maent wedi bod yn gweithio mewn partneriaeth â'r BGC i fwrw ymlaen â'r amcanion a chyflawni'r camau gweithredu a nodwyd yn ein cynllun. Mae partneriaid Cynghorau Tref a Chymunedol wedi nodi'r gweithgareddau y maent yn gweithio tuag atynt yn eu hadroddiadau blynyddol sydd ar gael drwy eu gwefannau:

- [Cyngor Tref y Barri](#)
- [Cyngor Tref Llanilltud Fawr](#)
- [Cyngor Tref Penarth](#)

Mae'r Adroddiad Blynyddol hwn yn nodi cynnydd yn erbyn pedwar Amcan Llesiant y BGC ac fe'i hysgrifennwyd i gyd-fynd â fideo a gyhoeddir ar y wefan y BGC sy'n amlygu'r gwaith a wnaed hyd yma a ffocws gweithgarwch yn y dyfodol.

Mae partneriaid yn llawn cyffro ynghylch yr hyn y gellir ei gyflawni drwy'r BGC ond maent hefyd yn cydnabod yr heriau a wynebwn o ran adnoddau a'r galw am wasanaethau. Bydd y BGC yn parhau i ganolbwyntio ar gyflawni'r Amcanion yn y Cynllun Llesiant a bwrw ymlaen â phrosiectau sy'n torri ar draws ein holl amcanion llesiant. Rydym yn ymdrechu i ddatblygu dull mwy integredig a chydweithredol o weithio a sut y gallwn wneud gwahaniaeth yn ein cymunedau lleol.

## Adran 2: Ein Hamcanion a'n Cynnydd o ran Llesiant

Pedwar Amcan Llesiant y BGC yw:

- Galluogi pobl i gymryd rhan, ymgysylltu yn eu cymunedau lleol a llunio gwasanaethau lleol
- Lleihau tlodi a mynd i'r afael ag anghydraddoldeb sy'n gysylltiedig ag amddifadedd
- Rhoi'r cychwyn gorau mewn bywyd i blant
- Diogelu, gwella a gwerthfawrogi ein hamgylchedd

Ceir arweinwyr strategol ar gyfer pob un o'r pedwar Amcan Llesiant sy'n cyfarfod yn rheolaidd er mwyn goruchwylio cynnydd y Cynllun. Cyflwynir adroddiad cynnydd ym mhob cyfarfod BGC. Mae arweinwyr ar gyfer tri Amcan yn rhoi diweddariad byr ar gynnydd a darperir diweddariad manwl yn erbyn y pedwerydd Amcan Llesiant. Caiff yr Amcan a adolygir yn fanwl ei gylchdroi ar gyfer pob cyfarfod gan sicrhau bod cyfle yn ystod y flwyddyn i greu cysylltiadau ar draws Amcanion a'r gweithgareddau ehangach sy'n cael eu cyflawni gan bartneriaid. Gwahoddir y rhai sy'n arwain ar wahanol feysydd gwaith i fynychu'r cyfarfodydd er mwyn arwain trafodaethau, amlygu llwyddiannau a phryderon neu rannu dysgu.

Rydym wedi cydnabod y bydd llawer o'n gweithgareddau yn cyfrannu at nifer o flaenoriaethau lleol a'r Nodau Llesiant cenedlaethol. Y dull yr ydym wedi bod yn ei ddatblygu yw ceisio canolbwyntio ar nifer o brojectau allweddol a sut y byddant yn cyflawni ar draws ein Hamcanion ac yn dwyn ynghyd nifer o gamau gweithredu. Mae Atodiad A yn rhoi adroddiad manylach ar y cynnydd a wnaed o ran gweithredu'r cynllun.

Mae'r adrannau nesaf hyn yn rhoi trosolwg o waith y BGC ac yn cynnwys nifer o astudiaethau achos i ddangos y gwaith sy'n cael ei wneud a'r canlyniadau a gyflawnwyd hyd yn hyn.

### **Amcan Un – Galluogi pobl i gymryd rhan, ymgysylltu yn eu cymunedau lleol a llunio gwasanaethau lleol (Arweinydd Strategol: Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru)**

Mae hyn yn amcan pwysig gan fod trigolion y Fro wedi dweud wrthym fod cael llais mewn penderfyniadau sy'n effeithio ar eu bywydau yn bwysig iawn. Drwy alluogi pobl i gymryd rhan yn eu cymunedau a thrwy wella'r ffordd yr ydym ni fel partneriaid yn ymgysylltu â'n cymunedau lleol ac yn gwrando arnynt, gallwn wneud gwahaniaeth gwirioneddol. Mae ein Cynllun Llesiant wedi rhoi fframwaith i ni ddatblygu ein gwaith partneriaeth. Un enghraifft dda o waith ar y cyd gyda'n cymunedau yw Cynllun Bancio Amser y Fro. Dros y deuddeg mis diwethaf mae Tîm Tai'r Cyngor wedi bod yn gweithio gyda thenantiaid i hyrwyddo ymgysylltiad a thyfu ysbryd cymunedol drwy gynnig cyfleoedd gwirfoddoli ar draws y Fro. Ym mlwyddyn gyntaf y cynllun mae cyfranogwyr wedi cyfrannu 1,660 awr o wirfoddoli ar draws y Fro. Mae gwaith yn mynd rhagddo ar hyn o bryd i weld sut y gall y cynllun fynd hyd

yn oed ymhellach. Mae hyn wedi cynnwys gwranddo ar rai straeon ysbrydoledig gan grwpiau cymunedol lleol fel Grŵp Gwirfoddoli Llanilltud Fawr, Gibby Greenfingers a Cwtch Cymru am y gwahaniaeth y mae bancio amser wedi'i wneud a'r manteision sylweddol i'r unigolyn a'r gymuned o gymryd rhan yn y cynllun.

Mae partneriaid yn gweithio gyda'i gilydd i gydlynu gweithgareddau ymgysylltu ac i wella a rhannu dysgu, ac mae hyn yn cynnwys gwaith i fapio gweithgareddau er mwyn cael gwell dealltwriaeth o sut y gallwn integreiddio gweithgareddau'n fwy llwyddiannus. Rydym ni hefyd yn gweithio gyda'n gilydd ar [Gronfa Grant Cymunedau Cryf](#) Cyngor y Fro i sicrhau bod projectau a gyllidir yn adlewyrchu'r nodau llesiant cenedlaethol ac yn canolbwyntio ar les cymunedol.

Mae'r BGC hefyd yn awyddus i weithio'n agosach gyda Fforwm 50+ a Fforwm Ieuenctid y Fro, gan adeiladu ar lwyddiannau eu trafodaeth yn ddiweddar oedd yn canolbwyntio ar y thema: "A yw pobl hŷn yn cyfyngu ar gyfleoedd pobl ifanc?"

### **Amcan Dau - Lleihau tlodi a mynd i'r afael ag anghydraddoldeb sy'n gysylltiedig ag amddifadedd (Arweinydd Strategol: Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro)**

Ceir ardaloedd ym Mro Morgannwg sydd o dan anfantais sylweddol, gan gynnwys lefelau uwch o ddiweithdra, lefelau is o ran cyflawniad addysgol, lefelau uwch o droseddau a disgygliad oes iach is. Rydym wedi ymrwymo i weithio gyda'n gilydd ond rydym yn gwybod y bydd yn cymryd amser i fynd i'r afael â'r materion hyn. Gan adeiladu ar ein Hasesiad Llesiant rydym wedi cynnal dadansoddiad pellach yn ymwneud ag amddifadedd yn y Fro sy'n pwysleisio ymhellach pam mae hwn yn faes gwaith mor bwysig.

- Mae 30% o bobl yn cael profiad o amddifadedd incwm, sy'n fwy na dwywaith cyfartaledd Cymru.
- Mewn rhai ardaloedd amcangyfrifir bod 53% o blant yn byw mewn tlodi.
- I fenywod yn y Fro, y bwlch mewn disgygliad oes iach rhwng ein hardaloedd mwyaf a lleiaf difreintiedig yw'r mwyaf yng Nghymru.

Er mwyn lleihau'r gwahaniaethau hyn, mae angen i ni weithio gyda phobl sy'n byw yn yr ardaloedd hynny, ar draws ystod eang o faterion, gan gynnwys tai, cyflogaeth ac addysg a hyd yn oed gofalu am eich iechyd a'ch llesiant eich hun. Rydym yn gwneud hyn mewn nifer o ffyrdd, a bydd y rhain yn cynyddu yn y flwyddyn sydd i ddod. Er enghraifft, rydym yn awyddus i gynyddu'r cyfleoedd ar gyfer teithio iach a llesol yn y Fro. Rydym yn adeiladu ar lwyddiant y dull Gwneud i Bob Cyswllt Gyfrif, i gefnogi pobl i gael mwy o sgysiau am wella eu hiechyd a'u llesiant. Mae'r partneriaid hefyd wedi dod ynghyd drwy Bartneriaeth Bwyd y Fro i ddatblygu Siarter Fwyd iach a chynaliadwy i'r Fro.

Drwy ddefnyddio grant Plant a Chymunedau Llywodraeth Cymru, rydym yn newid y ffordd rydym yn gweithio ac yn cydgysylltu gweithgareddau i sicrhau ein bod yn cyflawni'r

canlyniadau gorau posibl i'r rhai sydd â'r angen mwyaf. Mae hyn yn cynnwys gwaith yn ymwneud â chyflogadwyedd, rhianta a gweithgareddau gyda phobl ifanc.

Mae Coleg Caerdydd a'r Fro yn arwain gwaith i archwilio sut y gall partneriaid weithio gyda chyrrff prentisiaeth cenedlaethol i wella a darparu cyfleoedd prentisiaeth yn y Fro.

### **Amcan Tri – Rhoi'r cychwyn gorau mewn bywyd i blant (Arweinydd Strategol: Cyngor Bro Morgannwg)**

Gwyddwn fod y profiadau pan fo pobl yn ifanc yn cael effaith drwy gydol eu bywyd. Mae partneriaid yn gweithio gyda'i gilydd i ddeall goblygiadau profiadau bywyd gwael a'r hyn y mae angen i ni ei wneud i feithrin teuluoedd a chymunedau cryf a gwydn. Yn ein Cynllun rydym wedi nodi camau gweithredu allweddol ar gyfer sut y gallwn gyflawni hyn a bydd hynny'n cael effaith bendant ar wella lles pobl ifanc yn y Fro.

Mae gennym wasanaethau rhianta cydgysylltiedig ar draws y Fro. Bydd y gwasanaeth newydd hwn yn galluogi rhieni i gael gafael ar gyngor a chymorth rhagorol ac arloesol. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru hefyd yn helpu partneriaid i archwilio cyfleoedd i gysylltu chwarae â'r amgylchedd naturiol.

Mae gwaith ar y cyd yn mynd rhagddo gyda Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Caerdydd a'r Fro i ddatblygu project Profiadau Niweidiol Yn Ystod Plentyndod. Mae Heddlu De Cymru, y Bwrdd Iechyd Prifysgol, y Cyngor ac ysgolion yn gweithio gyda'i gilydd i roi'r cymorth cywir ar waith i roi'r dechrau gorau mewn bywyd i blant.

Mae'r BGC hefyd wedi bod yn gweithio gyda Chomisiynydd Plant Cymru i dreialu pecyn cymorth hawliau plant ar gyfer Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus. Byddwn yn ymgorffori dull hawliau plant yn ein gwaith i wella llesiant ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

### **Amcan Pedwar – Diogelu, gwella a gwerthfawrogi ein hamgylchedd (Arweinydd Strategol: Cyfoeth Naturiol Cymru)**

Ein hamgylchedd naturiol yw un o'r asedau mwyaf sydd gan y Fro; mae ein cefn gwlad, ein glannau môr a'n mannau gwyrdd gwyh yn rhan o ddiwylliant unigryw'r Fro. Mae'r BGC yn gwerthfawrogi rôl yr amgylchedd nid yn unig fel ased i ni ei fwynhau, ond fel darparwr swyddi, cynefinoedd hollbwysig a sylfaen hanfodol y mae llesiant yn cael ei hadeiladu arni.

Fel rhan o broject rhanbarthol rydym wedi bod yn mapio ein hasedau er mwyn nodi cyfleoedd lle gallwn gydweithio ar brojectau megis pwyntiau gwefru cerbydau trydan a gwydnwch ecosystemau drwy well rheoli tir.

Rydym yn bwrw ymlaen â'r gwaith ar deithio iach a llesol, gan ystyried sut y gallwn hyrwyddo cerdded a beicio i weithwyr, trigolion ac ymwelwyr yn y Fro ac adeiladu ar y cyfleoedd a ddaw yn sgil Bargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd. Byddwn yn parhau

i wneud y gorau y gallwn i annog a galluogi dewisiadau teithio iach, llesol a chynaliadwy ar draws y Fro.

Rydym wedi dechrau gweithio gyda'r gymuned ar broject amgylcheddol wedi'i gyd-gynhyrchu yn nalgylch Coldbrook, y Barri. Drwy'r project hwn, byddwn yn gweithio gyda phobl leol i wneud gwahaniaeth i'r amgylchedd yn eu cymuned leol.

Gyda'i gilydd, mae'r cynnydd a gafwyd yn erbyn pob un o'n hamcanion yn dangos bod y BGC yn dechrau gwneud gwahaniaeth a bod ganddo'r potensial i gael effaith gadarnhaol ar lesiant lleol. Er mwyn dangos y gwaith a wnaed dros y deuddeng mis diwethaf ymhellach, mae'r adran nesaf yn amlinellu nifer o astudiaethau achos allweddol.



## Adran 3: Astudiaethau Achos

### Astudiaeth Achos 1: Ymgorffori Hawliau'r Plentyn

Ym mis Medi 2018 aeth **Comisiynydd Plant Cymru** (Sally Holland) i un o gyfarfodydd BGC y Fro i drafod **sefydlu Dull Hawliau Plant** ym mhob agwedd ar wneud penderfyniadau, polisi ac arfer. Er mwyn helpu i ddatblygu'r gwaith hwn, hwylusodd Sally a'i thîm weithdy Hawliau Plant ym mis Chwefror 2019. Mynychwyd y gweithdy yn dda gan bartneriaid y BGC a sefydliadau ehangach ac atgyfnerthwyd pwysigrwydd gwreiddio hawliau plant a'r pum egwyddor sy'n sail i'r Dull Hawliau Plant. Helpodd y gweithdy i annog trafodaethau ar sut y gallai'r BGC wneud cynnydd o ran ymgorffori dull gweithredu hawliau plant.

Gan weithio gyda'r Comisiynydd, mae'r BGC wedi cwblhau cynllun peilot sef **Pecyn Cymorth Hawliau**. Roedd y Pecyn Cymorth yn galluogi'r BGC i asesu i ba raddau y mae'r Bwrdd, ar y cyd, yn rhoi mynediad i blant a phobl ifanc i'w hawliau a nodi meysydd i'w gwella. Rhoddwyd adborth i'r Comisiynydd a chytunwyd ar bedair cam yn seiliedig ar drafodaethau yn y gweithdy a thrwy hunanasesiad y Pecyn Cymorth;

1. Bydd y Grŵp Gorchwyl a Gorffen ar Ymgysylltu yn cael cyfarfod sy'n canolbwyntio ar ymgysylltu â phlant a phobl ifanc, rhannu arfer da ac ystyried heriau. (Amcan 1)
2. Gweithio gyda'r Llysgenhadon Hawliau i godi ymwybyddiaeth a herio arferion cyfredol. (Amcan 3)
3. Sefydlu Dull Hawliau Plant mewn gwaith ar deithio llesol. (Amcanion 2 a 4)
4. Trefnu cyfarfod o BGC y Fro gyda'r Fforwm/Cabinet Ieuenctid. (Amcan 1 a 3)

#### 5 Egwyddor Dull Gweithredu Hawliau Plant;

- Gwreiddio hawliau plant
- Cydraddoldeb a pheidio â gwahaniaethu
- Grymuso plant
- Cyfraniad
- Atebolrwydd



## Astudiaeth Achos 2: Gwasanaeth Cydlynu Cam-drin Domestig, Asesu ac Atgyfeirio (GCCDAA)

Mae'r **Gwasanaeth Cydlynu Cam-drin Domestig, Asesu ac Atgyfeirio (GCCDAA)** yn wasanaeth sy'n derbyn atgyfeiriadau gan yr heddlu yn dilyn eu hymwneud â digwyddiadau cam-drin domestig a ddosbarthwyd yn rhai safonol neu ganolig mewn risg. Mae cydlynwyr yn defnyddio **dull aml-asiantaeth** i weld a oes gan y dioddefwr unrhyw gysylltiad blaenorol/presennol â'r asiantaethau a'r gwasanaethau eraill a allai ddangos anghenion ychwanegol am gymorth. Defnyddir y wybodaeth hon wedyn i gynllunio pecyn cymorth sy'n cynnwys y gwasanaethau cymorth cywir ar yr adeg gywir i'r unigolion, gyda'r nod o leihau nifer yr achosion o gam-drin domestig.


Rhwng Mehefin 2018 - Mawrth 2019 derbyniwyd **1,658** o atgyfeiriadau am ddigwyddiadau cam-drin domestig gan y gwasanaeth GCCDAA. Eleni, cyrhaeddodd y gwasanaeth restr fer gwobrau Tai'r DU ar gyfer arloesi a chafodd ganmoliaeth uchel. Enillodd y gwasanaeth **wobr Arloesi a Syniadau Disglair** Cyngor Bro Morgannwg. Gellir gweld gwir effaith sut y mae'r gwasanaeth traws-sefydliadol yn helpu preswylwyr sy'n agored i niwed ar draws Bro Morgannwg drwy'r enghraifft go iawn o fywyd:



Yn ddiweddar, cafodd gwasanaeth GCCDAA atgyfeiriad lle'r oedd menyw wedi dioddef ymosodiad gan ei phartner. Cysylltodd y gwasanaeth â'r dioddefwr i drafod ei diogelwch a'i chymorth a sefydlodd fod y mater wedi codi pan oedd ei phartner yn cymryd cocên. Cynghorodd y gwasanaeth hi i siarad â'i phartner ac os oedd am gael help yna dylai gysylltu â'r GCCDAA ei hun, gan adael iddo'r posibilrwydd o gael ei atgyfeirio i wasanaeth cymorth. Cysylltodd ef â gwasanaeth GCCDAA ac o ganlyniad i'r cyswllt a'i baroddrwydd i newid fe'i cyfeiriwyd gan GCCDAA at sefydliad Taith (gwasanaeth sy'n darparu cymorth ar gyfer camddefnyddio sylweddau). Ers i GCCDAA atgyfeirio'r achos, mae'r cyflawnwr wedi parhau i ymgysylltu â'r cymorth a gynigir ac apwyntiadau am gymorth. Roedd y dioddefwr yn ddiolchgar iawn am yr ymyriad hwn na **fyddai wedi digwydd oni bai bod y gwasanaeth GCCDAA ar waith.**

### Astudiaeth Achos 3: Ymchwil Anghydraddoldeb

Nodweddir Bro Morgannwg yn aml fel ardal gymharol gefnog yng Nghymru. Mae [Asesiad Llesiant](#) y BGC yn amlygu, fodd bynnag, bod ardaloedd a grwpiau lle gall profiad bywyd yn y Fro fod yn wahanol. Ar draws y Fro mae ardaloedd sy'n profi **anfantais sylweddol** gan gynnwys: diweithdra uchel, disgwyliad oes iach is, cyflawniad addysg isel a lefelau uwch o droseddu.



Er mwyn adeiladu ymhellach ar ddysgu o'r Asesiad Llesiant, gweithiodd y BGC gyda myfyriwr ôl-raddedig o Brifysgol Caerdydd i wneud ymchwil a dadansoddi pellach i lefelau amddifadedd ac anghydraddoldeb ar draws y Fro. Mae **pedwar** o Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is (ACEHI) y Fro o hyd o fewn y 10% o ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru. Mae gwahaniaethau amlwg o hyd ar draws ystod eang o ddangosyddion sy'n ymwneud â: **chyflogaeth ac incwm, cyrhaeddiad addysgol, tlodi plant, disgwyliad oes iach, bwyta'n iach, cyfraddau gweithgarwch, diogelwch cymunedol, tai a'r amgylchedd** o ran profiadau bywyd rhwng ein cymunedau mwyaf difreintiedig a'r rhai lleiaf amddifadus.

Arweiniodd y gwaith hwn at gyflwyniad manwl i'r BGC yn ei gyfarfod ym mis Ebrill. Bydd y BGC yn ymateb i'r canfyddiadau hyn drwy barhau i fwrw ymlaen â'i waith i gyflawni Amcan Llesiant Dau a thrwy sicrhau bod gwaith ar draws yr holl amcanion yn cydnabod yr anghydraddoldebau o fewn y Fro.

Sefydlwyd partneriaeth Bwyd y Fro i wella mynediad i, ac argaeledd, bwyd **cynaliadwy a fforddiadwy** ym Mro Morgannwg. Mae'r bartneriaeth wedi gweithio gyda chynhyrchwyr a thyfwr, busnesau bwyd preifat a rhaglenni cymunedol i ddatblygu **Siarter Fwyd** yn y Fro. Er mwyn helpu i weithredu'r ymrwymadau a amlinellir yn y Siarter, cynhaliwyd gweithdai i ddatblygu fframwaith 'Symud Mwy, Bwyta'n Dda' ar gyfer Caerdydd a'r Fro. Mae'r bartneriaeth wedi datblygu a diweddarau map asedau bwyd gyda'r gweithgareddau hyn yn cael eu cyfateb i feini prawf Efydd y Ddinas Bwyd Cynaliadwy gyda'r bwriad o gyflwyno cais i fod yn aelod yn hydref 2019.

Fel rhan o ddatblygiad Bwyd y Fro bu pwyslais cryf ar ymgysylltu. Ym mis Mehefin 2018 daeth digwyddiad a gynhaliwyd ym Memo'r Barri a dros **50** o gynrychiolwyr ynghyd i glywed adborth gan y project Sensemaker a dreialwyd yn y Fro ac i ddweud eu dweud am gyfleoedd i hyrwyddo bwyd iach a chynaliadwy yn y Fro.



Casglwyd dros **100** o straeon ac roedd y canfyddiadau allweddol yn dangos bod pobl yn mwynhau coginio a bwyta ond nad oedd cyfleoedd i brynu dewisiadau iachus fforddiadwy lleol ar gael bob amser. Yn y digwyddiad, roedd tyfwr, cynhyrchwyr a darparwyr bwyd yn ynghyd â chynrychiolwyr o sefydliadau lleol. Roedd y digwyddiad yn defnyddio dull cymunedol o ymholi, fel bod pawb yn cael cyfle i wrando a chyfrannu a nodi cyfleoedd ar gyfer gweithredu yn y dyfodol.

Ariannwyd datblygiad cyffrous arall drwy Gymunedau Gwledig Creadigol.

**Gwneud Synnwyr o Fwyd:** Peilot yn y Fro Wledig oedd hwn yn ymwneud â Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro / Iechyd Cyhoeddus Cymru (Tîm Iechyd y Cyhoedd Lleol), Adran Ddieteg Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro a Newydd Housing. Drwy weithio gyda'i gilydd, cynhaliwyd peilot ymchwil ar raddfa fach mewn dwy ardal yng nghefn gwlad y Fro – Sain Tathan a Llanilltud Fawr. Nod y peilot oedd nodi'r heriau a'r rhwystrau i gyfranogiad. Cynigiwyd cyfres o weithgareddau i'r cymunedau yn y ddwy ardal, i denantiaid newydd i ddechrau, ond yna, gan weithio gyda'r ysgolion lleol, ehangwyd y cynnig i'r gymuned ehangach.



**Dewch i Goginio** – cwrs achrededig ar fwyta'n iach – cafodd y cwrs ei gynnal yn yr ysgol gynradd yn Sain Tathan – cymerodd 5 teulu ran ac roedd yr adborth yn gadarnhaol iawn. Mae cwrs 'Dewch i Goginio' arall wedi cael ei gynnal yn Llanilltud Fawr, a bydd y grŵp llywio yn adeiladu ar y cynlluniau peilot a gynhaliwyd i gryfhau ymhellach y bartneriaeth.

## Astudiaeth Achos 5: Rheoli Asedau

Mae nifer o weithgareddau wedi'u datblygu i nodi cyfleoedd ar draws y Fro a Chaerdydd ac i sicrhau bod partneriaid yn ystyried effaith eu gweithgareddau ar yr amgylchedd. Mae'r gwaith hwn yn cydnabod bod angen i'r holl bartneriaid ystyried sut y maent yn rheoli eu tir a'u heiddo, mae'n darparu cyfleoedd ar gyfer dysgu a rennir a hefyd yn ymchwilio i unrhyw gyfleoedd ar gyfer cydleoli staff a gwasanaethau.

Dyma rai o'r gweithgareddau allweddol a gyflawnwyd gan y partneriaid hyd yma, a sut y mae partneriaid yn ystyried lles amgylcheddol:

- Cychwyn y rhaglen **REFIT** i arwain at weithredu projectau ynni ar raddfa fawr i sicrhau arbedion o ran ynni a charbon mewn safleoedd Byrddau Iechyd gan gynnwys Ysbyty Athrofaol Cymru, Llandochoau ac Ysbyty'r Barri a'r rhaglen amnewid goleuadau LED;
- Amrywiaeth o fentrau manau gwyrdd a mentrau bywyd gwyllt o fewn Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro gan gynnwys **Ein Perllan**, dolydd gwyllt bach, ardaloedd tyfu a bwydwr adar/gwestyau chwilod ac ati ar draws safleoedd amrywiol;
- Canllawiau ar arferion da yn cael eu paratoi i fanteisio i'r eithaf ar fioamrywiaeth a'r amgylchedd wrth roi tir ar osod;
- Trafodaethau gyda Chyngor Bro Morgannwg a Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro ynghylch rheoli ymylon ffordd a manau glaswelltog er mwyn sicrhau'r budd mwyaf posibl o fioamrywiaeth;
- Er mwyn lleihau allbynnau carbon cafodd goleuadau stryd mewn ardaloedd preswyl eu troi'n rhai LED yn 2018, mae project SALIX yn mynd yn ei blaen i drosi goleuadau'r prif ffyrdd i fod yn LED.
- Mae gwaith wedi'i wneud i **ail-greu tir gwyllt** mewn ardal o dir ym Mharc Gwledig Porthceri, gan greu cynefin newydd ar gyfer bywyd gwyllt.

Yn rhanbarthol, ar draws Caerdydd a'r Fro sefydlwyd project cydweithio asedau trwy strategaeth genedlaethol **Ystadau Cymru** – enw'r project yw'r '**Adolygiad Rhoi Asedau Ar Waith**'. Mae cyllid o **£60,000** wedi dod i law drwy'r Gronfa Cydweithredu Asedau ac mae partneriaid wedi cydweithio ag ymgynghorwyr i fapio data allweddol a chynhyrchu astudiaethau achos i lywio adroddiad ar yr adolygiad o asedau. Mae tri **map asedau** wedi'u cynhyrchu sy'n darparu tystiolaeth o asedau ledled Caerdydd a'r Fro ac mae cyfleoedd wedi'u nodi ar gyfer cydweithio asedau pellach ar draws y rhanbarth.



## Astudiaeth Achos 6: Tîm Rhianta'r Fro

Mae Tîm Rhianta newydd y Fro yn cefnogi teuluoedd sydd â phlant rhwng 0-18 o flynyddoedd ar draws Bro Morgannwg er mwyn galluogi rhieni i deimlo'n fwy hyderus wrth reoli ymddygiad, rheolweithiau a therfynau. Mae'r tîm yn canolbwyntio ar hybu lles emosiynol a chefnogi perthynas gadarnhaol gyda'r teulu. Mae'r gwasanaeth hefyd yn elwa o **gymorth bydwreigiaeth arbenigol** oddi wrth ein bydwraig dan 19 oed, er mwyn darparu cymorth wedi'i dargedu sy'n ategu ac yn gwella'r Gwasanaeth Rhianta.

Mae'r tîm yn cyflwyno rhaglenni rhianta mewn amgylchedd grŵp bach, neu'n cynnig **ymyriadau pwrpasol 1:1** yn unol â'r hyn y mae'r teulu'n ei weld fel canolbwynt y cymorth sydd ei angen. Mae Rhaglenni Rhianta yn cynnwys: Croeso i'r Byd, Blwyddyn Gyntaf ein Baban, Rhaglen Maethu, Ymdrin ag Ymddygiad Plant, Ymdrin ag Ymddygiad yr Ardddegau, 'Talking Teens' a STEPS. Mae'r rhain yn cynnig rhaglen eang o gymorth a strategaethau ar draws y grŵp oedran cyfan, o'r cyfnod cynenedigol i'r ardddegau.

Mae Gwasanaeth Rhianta'r Fro wedi dechrau gweithio o **Ganolfan Sain Tathan** newydd, sy'n caniatáu i rwydweithio ddigwydd gyda rhieni a gweithwyr proffesiynol o Ysgol Gynradd Sain Tathan. Mae ein grŵp **Blwyddyn Gyntaf ein Baban** yn awr yn gweithredu ledled y Fro, ac rydym yn llwyddo i gyd-gyflawni ag ymwelwyr iechyd cyffredinol ar gyfer tri grŵp drwy gydol y flwyddyn. Mae grŵp peilot o'r enw '**Fy Maban Bach Gwych**' yn rhedeg yn llwyddiannus, mae'r project yn targedu rhieni newydd dan 20 oed ac yn gweithredu fel grŵp ymgysylltu i wasanaethau ehangach. Caiff hwn ei gyd-hwyluso gan fydwraig arbenigol ac ymarferydd rhianta.



## Adran 4: Datblygu ein Sail Dystiolaeth

Llywiwyd blaenoriaethau'r BGC gan sylfaen dystiolaeth gref ac mae'r BGC yn parhau i ddatblygu gwaith yn y maes hwn er mwyn ategu ei holl weithgareddau. Cyhoeddodd y BGC ei Asesiad Llesiant cyntaf ym mis Ebrill 2017, a chafodd y canfyddiadau eu llywio gan ystod o dystiolaeth fanwl gan gynnwys data, ymchwil a gwybodaeth am ymgysylltu.

Er mwyn adeiladu ar y dysgu a gasglwyd drwy'r asesiad, ac er mwyn sicrhau cynnydd yn erbyn ein cynllun llesiant, mae'r BGC wedi cytuno ar ystod o ddangosyddion trawsbynciol ar lefel y boblogaeth. Mae'r dangosyddion hyn yn cynnwys Dangosyddion Cenedlaethol Cymru a dangosyddion Lleuedd Ffyniannus fel y'u datblygwyd gan Ddata Cymru. Mae'r dull hwn wedi galluogi'r BGC i ddatblygu trosolwg holistig o fywyd a lles yn y Fro ac i greu cysylltiadau rhwng ein dangosyddion a gweithredu'r Cynllun Llesiant.

Cytunodd y BGC ar gyfres gynhwysfawr o 44 o ddangosyddion perfformiad sydd wedi'u rhannu rhwng dangosyddion 'pennawd' ac 'is-lefel'. Mae'r dangosyddion hyn wedi cael eu dewis er mwyn darparu cymysgedd o wybodaeth sydd ar gael yn lleol ac yn genedlaethol; i gynnig cydbwysedd yn erbyn y pedair agwedd ar lesiant a'n pedwar amcan llesiant. Mae trosolwg llawn o'n dangosyddion perfformiad ar gael fel Atodiad C.



Gan adlewyrchu'r dangosyddion hyn a sicrhau bod y data a'r dysgu a gasglwyd drwy ein hasesiad o lesiant yn cael ei gadw mor ddiweddar â phosibl, mae'r BGC wedi datblygu sylfaen dystiolaeth ar-lein. Bydd hyn yn rhoi data byw i'r BGC a mewnwleidiad i agweddau allweddol ar fywyd yn y Fro sy'n effeithio ar les pobl. Bydd ein sylfaen dystiolaeth yn galluogi'r BGC i integreiddio dysgu ein hasesiad a'r cynllun gyda data cyfredol i ddarparu dadansoddiad a datblygu ymatebion strategol i effeithio'n gadarnhaol ar les yn y Fro.

### Ein Tystiolaeth Allweddol:

Mae'r BGC yn olrhain y cynnydd yr ydym yn ei wneud wrth gyflawni ein Cynllun Llesiant drwy ei ddangosyddion perfformiad. Yn ogystal â monitro'r dangosyddion hyn, bydd y BGC yn cadw golwg ar newidiadau demograffig allweddol yn y Fro, gan gynnal a gwella'r dysgu a gesglir drwy ein Hasesiad Llesiant a llywio'r Asesiad nesaf. Er mwyn cadw gorolwg o'n cynnydd, newidiadau, ac i nodi heriau, rydym wedi gosod ein dangosyddion yn erbyn pedair thema allweddol, sef:

- Newid yn y Boblogaeth
- Addysg a'r Economi
- Iechyd a Chymunedau
- Yr Amgylchedd a Thrafnidiaeth

Mae Atodiad B yn tynnu sylw at rai o'r tueddiadau a datblygiadau allweddol sydd wedi, a bydd yn parhau, i arwain y BGC yn ei waith.



## **Adran 5: Casgliad**

Rydym wedi cyflawni cynnydd da o ran cyflawni ein Hamcanion Llesiant hyd yma. Rydym yn hyderus y gallwn, drwy barhau i weithio gyda'n gilydd a thrwy weithio'n wahanol, ddarparu gwell cyfleoedd i'r rhai sy'n byw yn y Fro heddiw, ac yn y dyfodol.

Y Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yw'r darn cyntaf o ddeddfwriaeth o'i fath yn y byd ac mae'n cynnig cyfle unigryw i wella a newid bywyd ym Mro Morgannwg.

Bydd y BGC yn parhau i adeiladu ar y cyfle hwn gyda chefnogaeth Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol ac maent wedi mwynhau gweithio gyda'r Comisiynydd Plant i wreiddio ymagwedd hawliau plant yn y Fro.



## Atodiad A: Rhoi'r Cynllun Gweithredu ar Waith

### Amcan Llesiant Un – Galluogi Pobl i Gymryd Rhan, Cyfranogi yn eu Cymunedau Lleol a Llunio Gwasanaethau Lleol Arweinydd Strategol – Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru

Rhif	Cam Gweithredu Cynllun Llesiant	Swyddog Arweiniol	Cynnydd
E1.	Mabwysiadu'r Egwyddorion Cenedlaethol ar gyfer Ymgysylltu â'r Cyhoedd yng Nghymru	<b>Christian Hadfield (CH) a Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru</b>	Sefydlwyd y Grŵp Gorchwyl a Gorffen Ymgysylltu a chynhaliwyd dau gyfarfod o'r grŵp. Canolbwyntiodd trafodaethau ar sut y gall y grŵp fwrw ymlaen â'r camau a amlinellir yn y Cynllun Llesiant ac mae fframwaith wrthi'n cael ei ddatblygu. Gan adeiladu ar waith y BGC gyda Chomisiynydd Plant Cymru, bydd y grŵp yn ffocysu ar sut mae partneriaid yn gweithio gyda phlant a phobl ifanc ac yn ymgysylltu â nhw yn eu gwaith. Bydd y trafodaethau hyn yn rhoi ffocws pellach i fabwysiad yr Egwyddorion Cenedlaethol ar gyfer Ymgysylltu â'r Cyhoedd gan y Bwrdd.

**Amcan Llesiant Un – Galluogi Pobl i Gymryd Rhan, Cyfranogi yn eu Cymunedau Lleol a Llunio Gwasanaethau Lleol  
Arweinydd Strategol – Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru**

Rhif	Cam Gweithredu Cynllun Llesiant	Swyddog Arweiniol	Cynnydd
E2.	<p>Ymchwilio i arfer gorau o ran ymgysylltu a chyfranogiad cymunedol yng Nghymru, y DU ac yn rhyngwladol i ddatblygu dulliau newydd gyda phwyslais arbennig ar:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Dulliau digidol</li> <li>• Hygyrchedd/ iaith glir</li> <li>• Plant a phobl ifanc</li> <li>• Cymunedau difreintiedig</li> <li>• Grwpiau anodd eu cyrraedd</li> <li>• Cyfleoedd drwy chwaraeon, diwylliant a'r amgylchedd</li> </ul>	<p><b>Christian Hadfield (CH) a Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru</b></p>	<p>Mae'r grŵp Gorchwyl a Gorffen Ymgysylltu wedi nodi nifer o gamau a fydd yn helpu i ddatblygu gwaith yr Amcan hwn, gan gynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Ymgymryd â mapio sut mae sefydliadau'n ymgysylltu er mwyn llywio arfer gorau</li> <li>• Mae sefydliadau bellach yn ymgymryd â mwy o rannu gwybodaeth a dysgu gan gymheiriaid</li> <li>• Creu calendr digwyddiadau fel bod pob sefydliad yn ymwybodol o'r cyfleoedd ymgysylltu sydd yno</li> <li>• Mwy o gyfleoedd ymgysylltu megis arolygon e-bost a rennir</li> </ul> <p>Bydd y gwaith hwn yn helpu i hysbysu adnabod gweithgareddau arfer gorau ledled y Fro. Un enghraifft o waith da a nodwyd hyd yma yw lle mae partneriaid wedi cydweithio i gynnal digwyddiadau cymunedol. Ym mis Medi cynhaliodd y Bartneriaeth Bro Ddiogelach Ddiwrnod Hwyl Gymunedol Bro Ddiogelach yng Ngorsaf Gwasanaethau Brys y Barri. Roedd y digwyddiad ar gyfer y gymuned gyfan, ond roedd hefyd yn targedu'r grwpiau cymunedol hynny sydd wedi elwa o'r bartneriaeth ac wedi gweithio gyda hi. Bydd partneriaid yn parhau i weithio gyda'i gilydd i gynnal digwyddiadau cymunedol a byddant yn cydweithio i gynnal y digwyddiad FestiVale ar gyfer Tenantiaid Tai ym Mro Morgannwg dros yr haf. Gwneir gwaith hefyd i adeiladu ar y dysgu a gasglwyd gan dîm Cymunedau Gwledig Creadigol y Cyngor trwy eu gwaith Mapio Asedau Cymunedol, ac i weld sut y gellir defnyddio'r dysgu hwn i ddatblygu dull BGC.</p>

**Amcan Llesiant Un – Galluogi Pobl i Gymryd Rhan, Cyfranogi yn eu Cymunedau Lleol a Llunio Gwasanaethau Lleol  
Arweinydd Strategol – Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru**

Rhif	Cam Gweithredu Cynllun Llesiant	Swyddog Arweiniol	Cynnydd
E3.	Cefnogi a hyrwyddo cyfleoedd gwirfoddoli i staff a phreswylwyr o bob oed gan gydnabod yr amrywiaeth o fuddion personol a chymunedol.	<b>Rachel Connor (RC) GVS</b>	<p>Gofynnir i bob partner ddarparu pwynt cyswllt cychwynol a fydd yn arweinydd gwirfoddoli o fewn eu sefydliad i helpu i ddarparu darlun o'r hyn sydd eisoes ar waith.</p> <p>Ym mis Mehefin, cynhaliwyd gweithdy i archwilio'r potensial o ehangu cynllun Bancio Amser Tai y Fro ar draws y Fro ac i breswylwyr ehangach. Amlygodd y trafodaethau hefyd gyfleoedd i wneud cysylltiadau gwell rhwng sefydliadau i gefnogi gwirfoddolwyr ac i ddarparu ystod fwy amrywiol o weithgareddau. Gan adeiladu ar y gwaith hwn, dechreuwyd trafodaethau ar ddatblygu Rhwydwaith Gwirfoddoli Awdurdodau Lleol a drefnwyd gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru. Bydd y trafodaethau hyn yn helpu'r BGC i fapio cyfleoedd gwirfoddoli yn y Fro a rhannu dysgu ac arfer gorau rhwng partneriaid.</p>
E4.	Cynhyrchu pecyn cymorth ymgysylltu ar gyfer partneriaid ar draws y BGC i gefnogi ymagwedd fwy integredig at ein gweithgareddau ymgysylltu sy'n rhoi'r gymuned yn y canol	<b>Christian Hadfield (CH) a Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru</b>	Bydd creu pecyn cymorth yn dod o weithredoedd a thrafodaethau parhaus y grŵp gorchwyl a gorffen ymgysylltu. Wrth i bartneriaid barhau i rannu dysgu ac ymarfer, datblygir pecyn cymorth sy'n dal y cyfleoedd i integreiddio gweithgareddau ymgysylltu ar draws y Fro.

**Amcan Llesiant Un – Galluogi Pobl i Gymryd Rhan, Cyfranogi yn eu Cymunedau Lleol a Llunio Gwasanaethau Lleol  
Arweinydd Strategol – Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru**

<b>Rhif</b>	<b>Cam Gweithredu Cynllun Llesiant</b>	<b>Swyddog Arweiniol</b>	<b>Cynnydd</b>
<b>E5.</b>	Gweithio gydag un o'n cymunedau mwyaf difreintiedig i nodi a datblygu project a gynhrychir ar y cyd sy'n cynnwys y gymuned ar y dechrau i benderfynu beth sydd ei angen a'r ateb gorau.	<b>Christian Hadfield (CH)</b> <b>Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru</b>	Yn dilyn trafodaethau â Chyd-gynhyrchu Cymru, mae CNC wedi dechrau gweithio gyda'r cymunedau yn ardal Coldbrook/ Tregatwg/ Sully Brook yn y Barri. Yn y gorffennol, mae'r ardaloedd hyn wedi profi digwyddiadau llifogydd; o'r herwydd gwnaed gwaith gyda grwpiau cymunedol drwy'r fenter 'Cyrsiau Dŵr ar gyfer Llesiant' i leihau perygl llifogydd tra'n hysbysu'r manteision i gymunedau, yn yr ardal ac i lawr yr afon, o gael gwared â sbwriel o'r afon. Cynhaliwyd sesiynau codi ymwybyddiaeth gyda 5 ysgol leol a dosbarthwyd pamffledi ar draws y dalgylch. Hefyd cynhaliwyd digwyddiadau casglu sbwriel yn Nwyrain y Barri i godi ymwybyddiaeth a datblygu ymdeimlad cyffredinol o berchnogaeth ar gyfer dalgylch yr afon.
<b>E6</b>	<b>Gohirio</b> - Datblygu ein dealltwriaeth a'n gwybodaeth am ein cymunedau lleol a sut y gallwn annog mwy o bobl i gymryd rhan yn eu cymuned.	<b>Christian Hadfield (CH)</b> <b>Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru</b>	Mae potensial i adeiladu ar lwyddiannau rhagnodi cymdeithasol, sydd wedi cael ei ddefnyddio er budd cymunedau mewn cynlluniau eraill. Gallai fod cyfleoedd i gysylltu'r gwaith hwn â datblygu cynllun bancio amser yn y Fro a'r ymarfer mapio a wneir gan y Grŵp Gorchwyl a Gorffen Ymgysylltu. Bydd hyn yn datblygu ein gwybodaeth o'n cymunedau lleol ymhellach a bydd yn gwella'r dysgu a gesglir trwy Asesiad Llesiant y BGC.

**Amcan Llesiant Un – Galluogi Pobl i Gymryd Rhan, Cyfranogi yn eu Cymunedau Lleol a Llunio Gwasanaethau Lleol  
Arweinydd Strategol – Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru**

Rhif	Cam Gweithredu Cynllun Llesiant	Swyddog Arweiniol	Cynnydd
E7.	Gweithio gyda staff a'r rhai sy'n gweithio yn y gymuned e.e. hyfforddwyd chwaraeon a gwirfoddolwyr i nodi anghenion, codi ymwybyddiaeth a chyfeirio at wasanaethau e.e. dementia, cam-drin domestig, unigedd/ unigrwydd, gwneud newidiadau ffordd iach o fyw.	<b>Sian Griffiths (SG)</b> <b>BIP Caerdydd a'r Fro/Iechyd Cyhoeddus Cymru (Tîm IC Lleol)</b>	<p>Rhoddodd cydweithwyr o BIP Caerdydd a'r Fro/ Iechyd Cyhoeddus Cymru (Tîm Iechyd Cyhoeddus Lleol) gyflwyniad ar ddatblygiad lleol y dull Gwneud i Bob Cyswllt Gyfrif (MECC) i'r grŵp Gorchwyl a Gorffen Ymgysylltu BGC. Archwiliwyd cyfleoedd posibl i gefnogi hyfforddiant sefydliadau partner. Rhannwyd cysylltiadau ag e-ddysgu MECC â phartneriaid ar gyfer rhaedru (fel y bo'n briodol) yn eu sefydliadau.</p> <p>Gwnaed gwaith i archwilio gweithio gyda chynghor tref o amgylch MECC ac o bosibl yr agenda pwysau iach.</p> <p>Cynhaliwyd sgysiau cychwynnol gyda GVS gyda golwg ar geisio cefnogaeth partneriaid i nodi maes y dylid canolbwyntio arno.</p> <p>Nodwyd cysylltiadau priodol gan Gyngor y Fro yn dilyn cyfarfod gyda'r Tîm Rheoli Corfforaethol.</p>
E8.	Adeiladu ar brofiad cynlluniau bancio amser lleol a'r rhai mewn ardaloedd cyfagos i archwilio potensial cynllun bancio amser ledled y Fro/ rhanbarthol.	<b>Mike Ingram (MI)</b> <b>(Pennaeth Gwasanaethau Tai) Cyngor Bro Morgannwg (CBM)</b>	<p>Rhoddwyd cyflwyniad ar y cynllun yng nghyfarfod y BGC ym mis Chwefror. Roedd y partneriaid yn awyddus i archwilio sut y gellid ehangu'r cynllun a chynhaliwyd gweithdy ym mis Mehefin 2019 a bydd Grŵp Gorchwyl yn awr yn cael ei sefydlu i ddatblygu strategaeth a chais cyllido posibl i ehangu'r cynllun.</p> <p>Mae swyddogion o Adran Tai'r Cyngor wedi ymweld â Chaerfyrddin i ddarganfod sut yr ehangwyd y cynllun o un a oedd yn canolbwyntio'n wreiddiol ar gael tenantiaid y cyngor i gymryd rhan.</p> <p>O'r rhai a oedd yn rhan o'r cynllun bancio amser, dywedodd 86% o wirfoddolwyr eu bod yn teimlo mwy o hunan-barch, dywedodd 87% eu bod yn teimlo'n fwy hyderus, a dywedodd 87% eu bod wedi gwneud ffrindiau newydd drwy'r project. Mae rhagor o wybodaeth am y cynllun ar gael <a href="#">yma</a>.</p>

**Amcan Llesiant Dau – Lleihau Tlodi a Mynd i'r Afael ag Anghydraddoldebau sy'n Gysylltiedig ag Amddifadedd Arweinydd Strategol – Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro**

Rhif	Cam Gweithredu Cynllun Llesiant	Swyddog Arweiniol	Cynnydd
D9.	Ymgymryd ag ymgysylltiad, ymchwil a dadansoddiad pellach ynglŷn ag anghydraddoldebau rhwng ein cymunedau lleiaf a mwyaf difreintiedig i lywio sut y gallwn gydweithio yn fwy effeithiol er mwyn ymdrin â'r heriau a lleihau anghydraddoldebau.	<b>Grŵp Alinio Tlodi (PAG)</b> <b>Helen Moses (HM)</b> <b>Mark Davies (MD)</b> <b>(Rheolwr Atal a Phartneriaeth)</b> <b>CBM</b>	<p>Cynhaliwyd adolygiad manwl o'r data a'r ymchwil a lywiodd yr asesiad llesiant ac o ddata a ryddhawyd o'r newydd ac ymchwil. Cyflwynwyd y canfyddiadau i'r BGC ym mis Ebrill ac amlygwyd meysydd pryder penodol yn yr ardal. Mae pedair o Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is y Fro yn parhau i fod yn y 10% uchaf o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru. Amlygodd y gwaith bod gwahaniaethau amlwg rhwng profiadau bywyd ein cymunedau lleiaf a mwyaf difreintiedig ar draws ystod eang o ddangosyddion.</p> <p>Gellir gweld cyflwyniad y canfyddiadau ar <a href="#">Dudalennau Tystiolaeth BGC</a> a rhoddir mwy o wybodaeth am y gwaith hwn yn gynharach yn yr adroddiad.</p> <p>Mae'r gwaith hwn yn llywio sut mae'r BGC yn bwrw ymlaen â blaenoriaethau o fewn y Cynllun Llesiant.</p>
D10.	<b>Gohirio</b> - Gweithio mewn partneriaeth ag asiantaethau eraill, er enghraifft banciau bwyd, gwasanaethau cyngor ar ddyledion a phrojectau eraill sydd eisoes yn gweithio yn y gymuned, i archwilio sut y gallwn gyrraedd yn well y rhai sy'n byw mewn tlodi a gwella mynediad at wasanaethau, gwybodaeth a chefnogaeth.	<b>BIP Caerdydd a'r Fro i gychwyn</b>	Bydd Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru yn cael ei adnewyddu yn hydref 2019, a bydd y wybodaeth hon yn darparu sail dystiolaeth i'r BGC ddechrau trafod gydag asiantaethau ychwanegol ar y ffordd orau o gydweithio er budd y rhai mwyaf difreintiedig yn y Fro.

**Amcan Llesiant Dau – Lleihau Tlodi a Mynd i'r Afael ag Anghydraddoldebau sy'n Gysylltiedig ag Amddifadedd  
Arweinydd Strategol – Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro**

Rhif	Cam Gweithredu Cynllun Llesiant	Swyddog Arweiniol	Cynnydd
D11.	Cydweithio i hyrwyddo negeseuon ymddygiad iach gan gydnabod yr angen i addasu ein dulliau i gyrraedd gwahanol grwpiau poblogaeth gan gynnwys pobl hŷn, pobl ifanc a'r rhai mewn ardaloedd difreintiedig.	<b>Sian Griffiths (SG) BIP Caerdydd a'r Fro/Iechyd Cyhoeddus Cymru (Tîm IC Lleol)</b>	<p>Cynhaliwyd trafodaethau cwmpasu cychwynnol gyda'r grŵp Gorchwyl a Gorffen Ymgysylltu ar bwnc pwysau iach. Mewn ymateb i Bwysau Iach: Cymru Iach, strategaeth pwysau iach Llywodraeth Cymru, datblygwyd fframwaith pwysau iach 'Symud Mwy, Bwyta'n Iach' ar gyfer Caerdydd a'r Fro. Ynghyd â'r fframwaith, ceir cynllun gweithredu strategol a fydd yn darparu cyfleoedd i integreiddio ac alinio gwaith sy'n cael ei wneud ar draws y bartneriaeth ac i ddatblygu negeseuon ymddygiad iach yn effeithiol.</p> <p>Mae cynllunio pellach ar y gweill gyda CNC i ystyried ceisio cymorth gan bartneriaid i ymestyn eu dull yn seiliedig ar le mewn ardal ddaearyddol benodol i gwrdd â nifer o gamau gweithredu yn y Cynllun Llesiant. Mae pynciau posibl yn cynnwys bwyta'n iach, cynaliadwyedd amgylcheddol a theithio iach; byddai dull cyd-gynhyrchu yn cael ei ffafrio.</p> <p>Mae'r cam gweithredu hwn yn cysylltu ag E7</p>

<p><b>D12.</b></p>	<p>Gweithio gyda thrigolion lleol i nodi a chyflwyno project amgylcheddol, gan gydnabod y cyfleoedd ar gyfer cyfranogiad cymunedol a'r cysylltiadau rhwng yr amgylchedd, gweithgarwch corfforol a llesiant.</p>	<p><b>Nadia De Longhi (NDL)</b> <b>Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC)</b></p>	<p>Mae Cyfoeth Naturiol Cymru wedi adnabod dalgylch Coldbrook/ Tregatwg/ Sully Brook fel ardal a fyddai'n addas ar gyfer dull sy'n seiliedig ar le ar gyfer projectau cymunedol i wella'r dyfrffyrdd, eu heffeithiau a'u manteision i'r gymuned ac effeithiau i lawr yr afon (e.e. i draethau ymdrochi). Mae'r gweithgareddau cychwynol ("Cyrsiau Dŵr ar gyfer Llesiant") wedi digwydd ac maent yn cynnwys:</p> <p><b>Ymgyrch Yellowfish mewn partneriaeth â Cadwch Gymru'n Daclus:</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• 5 ysgol (50 o ddisgyblion) a 3 grŵp cymunedol</li> <li>• Codi ymwybyddiaeth o 'dim ond glaw i lawr y draen'</li> </ul> <p><b>Ymgysylltu Cymunedol gyda Cadwch Cymru'n Daclus</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Grŵp Bywyd Gwyllt Porthceri, Grŵp Cadwraeth Tregatwg, Grŵp Bywyd Gwyllt Gwenfô a Barry Action for Nature - mae hyn wedi helpu i nodi rhai syniadau ar gyfer gwelliannau amgylcheddol yn nalgylch Coldbrook y gellir eu datblygu gyda dull cyd-gynhyrchiol (cyswllt ag E5)</li> </ul> <p><b>Rhannu pamffled Caru Eich Afon o gwmpas Dwyrain y Barri</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• I wella ymdeimlad o berchnogaeth Coldbrook a rhybuddio'r cyhoedd o'r digwyddiadau casglu sbwriel isod</li> </ul> <p><b>Dau ddigwyddiad Casglu Sbwriel Cymunedol yn Nwyrain y Barri</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Presenoldeb grwpiau cymunedol lleol a'r cyhoedd yn Gibbonsdown</li> </ul> <p><b>Gwella Pyllau Porthceri a Dad-ddofi Tir gyda Grŵp Bywyd Gwyllt Porthceri</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Mae'r gwaith hwn yn cysylltu â'n hymrwymiad ar y cyd o fewn y BGC i wyrddu ein hystadau.</li> </ul>
<p><b>D13.</b></p>	<p>Adeiladu ar y sylfeini a grëwyd gan Gymunedau yn Gyntaf a gwaith a wnaed</p>	<p><b>Grŵp Alinio Tlodi (PAG)</b></p>	<p>Gyda chreu dau Grant Llywodraeth Cymru (Cymorth Tai a Phlant a Chymunedau) i ddisodli 10 ffrwd ariannu bresennol, mae cynllun cyflenwi Grant Plant a Chymunedau wedi'i gymeradwyo gan Lywodraeth Cymru ac mae adroddiadau ar y gweill.</p>



**Amcan Llesiant Dau – Lleihau Tlodi a Mynd i'r Afael ag Anghydraddoldebau sy'n Gysylltiedig ag Amddifadedd  
Arweinydd Strategol – Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro**

Rhif	Cam Gweithredu Cynllun Llesiant	Swyddog Arweiniol	Cynnydd
	trwy raglenni fel Dechrau'n Deg, Teuluoedd yn Gyntaf a Chefnogi Pobl i ddatblygu dull mwy cydlynol o drechu tlodi ledled y Fro.	<b>(Amber Condy (AC) Rheolwr Gweithredol, Gwasanaethau Cymdeithasol) CBM</b>	<p>Mae trefniadau llywodraethu newydd ar waith ac mae Bwrdd Rheoli Strategol wedi cael ei gyfarfod cyntaf, ynghyd â'r is-grwpiau Grant Plant a Chymunedau a HS.</p> <p>Rhodddwyd cymeradwyaeth gan LIC i ddatganoli'r grant etifeddiaeth i'r gwahanol brojectau y maent yn eu hariannu. Dylai hyn leihau dyblygu cofnodi, ac arwain at alinio gweithgareddau'n agosach.</p> <p>Mae Cymunedau ar gyfer Gwaith, Cymunedau am Waith a Mwy a'r ddwy raglen cyflogadwyedd arall a ariennir gan Ewrop wedi cael eu dwyn ynghyd yn yr adran addysg. Mae cysylltiadau gweithio agosach o fewn y timau yn cael eu datblygu.</p> <p>Dechreuodd gwaith ar fframwaith canlyniadau unigol i amlygu pa raglenni a grantiau sy'n ymateb i bob un o'r Nodau Llesiant Cenedlaethol, Cynllun Llesiant y BGC a Blaenoriaethau Corfforaethol y Fro.</p>
<b>D14.</b>	Cydweithio fel cyflogwyr lleol a darparwyr addysg a hyfforddiant i ddatblygu cyfleoedd newydd ar gyfer profiad gwaith, lleoliadau, prentisiaethau a datblygu sgiliau sy'n cyd-fynd â chyfleoedd swyddi yn y dyfodol ar y cyd â'r Brifddinas-Ranbarth.	<b>Emil Evans (EE) Coleg Caerdydd a'r Fro (CAVC)</b>	<p>Mae CAVC wedi cwblhau adolygiad desg yng nghyd-destun cefnogi twf a ffyniant Bro Morgannwg yn bennaf. Darpara'r adolygiad wybodaeth am yr economi leol ym Mro Morgannwg, gwybodaeth y gellir ei defnyddio i gefnogi darpariaeth a fydd yn rhoi cyfleoedd am brofiad gwaith, prentisiaethau a datblygu sgiliau perthnasol i'r diwydiant.</p> <p>Dechreuodd trafodaethau gyda phartneriaeth Bwyd y Fro i archwilio'r cyfleoedd i gysylltu gwirfoddoli, profiad gwaith a'r diwydiant bwyd yn y Fro.</p> <p>Mae Rheolwr Cyflogaeth a Dilyniant CAVC yn cysylltu â sefydliadau yn y Fro i archwilio cyfleoedd pellach ar gyfer profiad gwaith, gwirfoddoli a phrentisiaethau.</p>

**Amcan Llesiant Dau – Lleihau Tlodi a Mynd i'r Afael ag Anghydraddoldebau sy'n Gysylltiedig ag Amddifadedd Arweinydd Strategol – Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro**

Rhif	Cam Gweithredu Cynllun Llesiant	Swyddog Arweiniol	Cynnydd
D15.	Datblygu dull cydlynol o ymdrin â thlodi tanwydd gan gydnabod arbenigedd a chyfraniad Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig tuag at gyflawni'r nod hwn.	<b>Mike Ingram (MI)</b> <b>(Pennaeth</b> <b>Gwasanaethau Tai)</b> <b>CBM</b>	Trefnwyd cyfarfod gyda'r swyddog arweiniol yng Nghyngor Caerdydd i drafod y gwaith sy'n cael ei wneud ar gynhesrwydd fforddiadwy i lywio sut y gellid bwrw ymlaen â gwaith yn y Fro ac unrhyw gyfleoedd i gydweithio.
D16.	Ystyried sut y gallwn wella'r amgylchedd i gefnogi ac annog chwarae yn yr awyr agored a theithio llesol mewn rhai o'n hardaloedd mwyaf difreintiedig trwy, er enghraifft, gynlluniau gwella trafndiaeth a chau strydoedd ar gyfer chwarae	<b>Tom Porter (TP)</b> <b>BIP Caerdydd a'r</b> <b>Fro/Iechyd</b> <b>Cyhoeddus Cymru</b> <b>(Tîm IC Lleol)</b>	Dechreuodd gwaith i gryfhau cysylltiadau rhwng timau trafndiaeth yng Nghyngorau Bro Morgannwg a Chaerdydd, gan gynnwys presenoldeb gan dîm trafndiaeth y Fro yng Ngrŵp Cyngori Beicio Caerdydd, i rannu syniadau a datblygiadau. Mae tîm Trafndiaeth Cyngor Bro Morgannwg yn edrych ar y potensial ar gyfer cynllun llogi beiciau cyhoeddus yn Nwyrain y Fro, gan gynnwys ardaloedd mwy difreintiedig o ran incwm i alluogi teithio rhad, iach.
D17.	Gweithio gyda phartneriaeth Bwyd y Fro i ymdrin â materion sy'n ymwneud â mynediad a fforddiadwyedd bwyd a sicrhau bod gan bobl y sgiliau a'r adnoddau i oresgyn tlodi bwyd a gwneud dewisiadau bwyd iachach.	<b>Rhiannon Urquhart</b> <b>(RU)</b> <b>BIP Caerdydd a'r</b> <b>Fro/Iechyd</b> <b>Cyhoeddus Cymru</b> <b>(Tîm IC Lleol)</b> <b>(Grŵp Llywio Bwyd y</b> <b>Fro)</b>	Cynhaliwyd cyfarfod gyda nifer o sefydliadau'r trydydd sector i siarad am fwyd, fel rhan o'r gwaith ymgysylltu parhaus a chasglu tystiolaeth i gefnogi cais Cronfa Gymunedol y Loteri Fawr. Cynhaliwyd gweithdy llwyddiannus a gynhaliwyd ar 13eg Mawrth yn y Fro i ddatblygu 'Symud Mwy, Bwyta'n Iach', y camau gweithredu strategol a fframwaith ar gyfer Caerdydd a Bro Morgannwg. Mynychodd dros 40 o bobl y digwyddiad ac mae eu sylwadau'n cael eu coladu ar hyn o bryd. Mae Bwyd y Fro yn fecanwaith cyflenwi allweddol ar gyfer y ffrwd waith hon.  Cyfleoedd i ddatblygu dull seiliedig ar le mewn un ardal o'r Fro yn cael eu trafod gyda CNC a chynghorau tref a chymuned lleol a fydd yn cynnwys materion amgylcheddol, tyfu, coginio a bwyta bwyd iach a chynaliadwy.

**Amcan Llesiant Tri – Rhoi’r Cychwyn Gorau mewn Bywyd i Blant  
Arweinydd Strategol – Cyngor Bro Morgannwg**

Rhif	Cam Gweithredu Cynllun Llesiant	Swyddog Arweiniol	Cynnydd
<b>C18.</b>	Defnyddio canfyddiadau cynllun peilot y 1000 Diwrnod Cyntaf i herio a llywio darpariaeth blynyddoedd cynnar yn y Fro gan archwilio'r cyfraniad y gall gwahanol bartneriaid ei wneud i gefnogi atal ac ymyrryd yn gynnar.	<b>Rhiannon Urquhart (RU)</b> <b>BIP Caerdydd a’r Fro/Iechyd Cyhoeddus Cymru (Tîm IC Lleol)</b>	<p>Mae mapio darpariaeth y Blynyddoedd Cynnar ar draws Cyngor Bro Morgannwg, BIP C&amp;F a'r 3ydd sector yn cael ei arwain gan y BIP Caerdydd a’r Fro/Iechyd Cyhoeddus Cymru (Tîm Iechyd Cyhoeddus Lleol). Gwnaed cysylltiadau gyda'r Partneriaethau Blynyddoedd Cynnar strategol presennol.</p> <p>Bydd yr ymarfer yn nodi darpariaeth gwasanaethau mewn Iechyd, Addysg, 3ydd Sector ar draws tri phennawd allweddol:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Gwasanaethau cyffredinol</li> <li>• Gwasanaethau wedi’u targedu</li> <li>• Gwasanaethau arbenigol</li> </ul> <p>Cafodd yr ymarfer mapio ei oedi ychydig wrth aros am lywio gan y Tîm 1000DC cenedlaethol yn Iechyd Cyhoeddus Cymru. Trefnwyd gweithdy ar gyfer diwedd Mehefin er mwyn galluogi pob arweinydd 1000DC ar draws ardaloedd awdurdodau lleol i drafod bwrw ymlaen yn lleol â chynllun gweithredu Cymru gyfan a gynhyrchwyd yn ddiweddar.</p>

**Amcan Llesiant Tri – Rhoi'r Cychwyn Gorau mewn Bywyd i Blant  
Arweinydd Strategol – Cyngor Bro Morgannwg**

Rhif	Cam Gweithredu Cynllun Llesiant	Swyddog Arweiniol	Cynnydd
C19.	Datblygu dull mwy strategol ac arloesol o wella sgiliau rhianta gan gysylltu gweithgareddau â chwarae a'r amgylchedd naturiol i helpu i gyrraedd mwy o bobl a hyrwyddo cysylltiadau â'r amgylchedd a llesiant o oedran cynnar.	<b>Mark Davies (MD) ac Amber Condy (AC) CBM</b>	<p>Lansiwyd y gwasanaeth rhianta newydd mewn digwyddiad Rhwydweithio Llesiant ym mis Tachwedd ynghyd â Llinell Gyngor newydd Teuluoedd yn Gyntaf a'r tîm Llesiant Ieuenctid. Y cam nesaf fydd archwilio'r cysylltiadau â gwasanaeth rhianta'r Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid yn unol â chynlluniau Grant Plant a Chymunedau. Mae'r gwaith hwn yn bwrw ymlaen â'r gwaith i alinio'n well y ffrydiau cyllid grant presennol drwy ddau gynllun grant newydd Llywodraeth Cymru, sef Tai a Chymorth a Phlant a Chymunedau. Ceir rhagor o wybodaeth am y gwaith hwn yng ngham gweithredu D13.</p> <p>Dechreuodd Gwasanaeth Magu Plant y Fro weithio yn yr Hyb Sain Tathan sydd newydd ei ffurfio, ac sy'n caniatáu i rwydweithio ddigwydd gyda rhieni a gweithwyr proffesiynol Ysgol Gynradd Sain Tathan. Mae grŵp Blwyddyn Gyntaf ein Baban bellach yn gweithredu'n llawn ledled y Fro, ac mae'n cael ei gyflwyno'n llwyddiannus gydag ymwelwyr ieuchyd generig (3 grŵp yn ystod y flwyddyn). Cynhaliwyd grŵp peilot o'r enw 'Fy Maban Rhyfeddol' yn llwyddiannus am 1 tymor, a oedd yn targedu rhieni newydd dan 20 oed ac yn gweithredu fel grŵp ymgysylltu â gwasanaethau ehangach. Hwylusir hwn gan y fydwrraig arbenigol ac ymarferydd rhianta.</p> <p>Cynhaliwyd cyfarfod gyda CNC i edrych ar opsiynau o ran yr amgylchedd, trafodaethau gyda thîm chwarae'r Cyngor a rhai astudiaethau achos o amgylch ysgolion coedwig yn yr ardal.</p> <p>Darperir hyfforddiant hyder yn 2019 i alluogi trosglwyddo negeseuon chwarae yn yr awyr agored i deuluoedd sy'n ymgysylltu â gwasanaethau, gan gynnwys blynyddoedd cynnar, rhianta, llesiant ieuenctid ayb. Ymgwymerodd 7 o staff llesiant ieuenctid yr hyfforddiant Cysylltu â Natur a gynigir trwy CNC, mae hyn bellach yn cael ei ddefnyddio'n wythnosol.</p>

**Amcan Llesiant Tri – Rhoi'r Cychwyn Gorau mewn Bywyd i Blant**  
**Arweinydd Strategol – Cyngor Bro Morgannwg**

Rhif	Cam Gweithredu Cynllun Llesiant	Swyddog Arweiniol	Cynnydd
C20.	Datblygu gwell dealltwriaeth o ACE i gymryd camau effeithiol i sicrhau bod pobl yn cael eu diogelu, bod systemau cefnogi ar waith a bod achosion sylfaenol ACE yn cael eu hatal.	<b>Arweinydd Clinigol ar gyfer y Tîm Trawsnewid Ymwybyddiaeth o Gydnerthedd ac Ymwybyddiaeth Trawma - BIP Caerdydd a'r Fro (I'w benodi)</b>	<p>Ariennir swydd ar draws Caerdydd a'r Fro ar ôl cais llwyddiannus gan y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol, 'Fi, Fy Nghartref, Fy Nghymuned', mewn ymateb i Gymru Iachach.</p> <p>Cyflwynir project ACE Bro Morgannwg mewn partneriaeth â'r Sefydliad Iechyd Meddwl, Heddlu De Cymru, Bwrdd Iechyd Prifysgol a Chyngor Bro Morgannwg. Penodwyd swyddog cefnogi project o Heddlu De Cymru ar sail dau fisol i archwilio'r ffyrdd gorau o hwyluso cyfleoedd ymyrryd yn gynnar yn y Fro. Yn ogystal, mae Teuluoedd yn Gyntaf wedi trefnu dwy sesiwn hyfforddi ACES a fydd yn cael eu cyflwyno i staff Teuluoedd yn Gyntaf/ Dechrau'n Deg. Bydd y sesiynau hyn yn cael eu harchwilio i'w datblygu ymhellach.</p> <p>Mae pob project Teuluoedd yn Gyntaf yn casglu data ar nifer yr ACEs a brofwyd ac mae hyn yn helpu i nodi anghenion hyfforddi staff a darpariaeth gwasanaeth i ddiwallu anghenion gwahanol ddefnyddwyr gwasanaeth. Hefyd, mae ymwybyddiaeth o themâu sy'n dod i'r amlwg yn helpu i sicrhau bod y gwasanaethau cefnogi cywir yn cael eu rhoi ar waith.</p> <p>Trwy 'Early Action Together', mae'r Heddlu wedi cynnig 5 lle ar bob un o'u sesiynau hyfforddi amser-ACE eu hunain. Cynhwyswyd gwybodaeth am Linell Gyngor Teuluoedd yn Gyntaf yn yr hyfforddiant heddlu hwn ar ACES.</p>
C21.	Adolygu gwasanaethau ar draws partneriaid a chydweithio i nodi'r cyfraniad y gallwn ei wneud tuag at roi'r cychwyn gorau i bob plentyn mewn bywyd, gan gydnabod rôl gwasanaethau cyffredinol a statudol	<b>Mark Davies (MD) ac Amber Condy (AC) CBM</b>	<p>Hwyluswyd gweithdy ar gyfer partneriaid BGC gan y Comisiynydd Plant, gan ganolbwyntio ar sut y gallai'r BGC ymgorffori hawliau'r plentyn yn eu gwaith. Mae'r BGC wedi treialu pecyn cymorth ar gais y Comisiynydd Plant ac mae bellach wedi cytuno i wneud y gwaith canlynol.</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Ymgorffori hawliau'r plentyn i mewn i waith ar Deithio Llesol</li> <li>• Trefnu cyfarfod rhwng y BGC a'r Fforwm Ieuenctid</li> <li>• Ymchwilio i sut y gall Llysgenhadon Hawliau weithio gyda phartneriaid i sicrhau bod plant a phobl ifanc yn cael eu hystyried mewn polisiâu, arferion a dylunio gwasanaethau</li> <li>• Bydd grŵp ymgysylltu'r BGC yn ystyried rhannu arfer gorau ac archwilio sut y gallant, ar y cyd, wella ymgysylltiad â phlant a phobl ifanc.</li> </ul>

**Amcan Llesiant Tri – Rhoi'r Cychwyn Gorau mewn Bywyd i Blant  
Arweinydd Strategol – Cyngor Bro Morgannwg**

Rhif	Cam Gweithredu Cynllun Llesiant	Swyddog Arweiniol	Cynnydd
C22.	Adolygu trefniadau aml-asiantaeth ar gyfer darparu gwasanaethau ataliol a statudol i blant a phobl ifanc.	<b>Mark Davies (MD) ac Amber Condy (AC) CBM</b>	Mae adolygiad o drefniadau amlasiantaethol ar gyfer gwasanaeth ataliol a statudol i'w gynnal; bydd y gwaith hwn yn cydgysylltu â'r wybodaeth a gafwyd drwy waith y BGC gyda Chomisiynydd Plant Cymru a gwaith parhaus i alinio rhaglenni ataliol drwy ail-strwythuro trefniadau ariannu Llywodraeth Cymru, a gwaith ar y cyd ar ddarpariaeth ACE yn y Fro.

## Amcan Llesiant Tri – Rhoi'r Cychwyn Gorau mewn Bywyd i Blant Arweinydd Strategol – Cyngor Bro Morgannwg

Rhif	Cam Gweithredu Cynllun Llesiant	Swyddog Arweiniol	Cynnydd
23.	Cydnabod rôl oedolion ym mywydau plant, archwilio sut y gall partneriaid weithio gyda'i gilydd i ddarparu'r cymorth a'r gwasanaethau ataliol cywir i oedolion a allai fel arall fod mewn perygl o golli eu cartref neu fynd i mewn i'r system cyfiawnder troseddol trwy, er enghraifft, gam-drin domestig, iechyd meddwl gwael neu ymddygiad gwrthgymdeithasol.	<p><b>Deb Gibbs (DG)</b> <b>(Rheolwr Bro Ddiogelach)</b> <b>CBM</b></p> <p><b>Julie Grady</b></p>	<p>Yn ystod misoedd Mehefin 2018 - Mawrth 2019, derbyniodd y Gwasanaeth Cydlynu Asesu Cam-drin Domestig (DAARC) 1658 o atgyfeiriadau a oedd yn ddigwyddiadau cam-drin domestig safonol neu risg ganolig. Archwiliwyd systemau amlasiantaeth er mwyn galluogi'r cydlynnydd i adolygu'r hanes a'r ymgysylltiad (os o gwbl) ag asiantaethau a gwasanaethau eraill. Yna, gyda chaniatâd, cysylltodd DAARC â dioddefwyr a chynigiwyd cefnogaeth a chyfeiriad at y gwasanaethau perthnasol iddynt, a phenderfynu p'un a ellid rhannu unrhyw wybodaeth bellach a rhoi darpariaethau cymorth ar waith.</p> <p>Rhoddwyd y gwasanaeth DAARC ar y rhestr fer ar gyfer Gwobrau Tai y DU am Arloesedd, ac er nad enillodd, cafodd y gwasanaeth ei ganmol yn fawr.</p> <p>Mae Atal ac Ymyrryd yn parhau i fod yn flaenoriaeth i'r tîm Ymddygiad Gwrthgymdeithasol. Erbyn hyn mae gan y tîm fynediad at systemau addysg a gwasanaethau cymdeithasol i allu rhannu gwybodaeth briodol a gwneud penderfyniadau mwy gwybodus.</p> <p>Mae'r strategaeth Partneriaethau Bro Ddiogelach yn mynd rhagddi ar darged, i fod ar gael i ymgynghori arni yn ystod haf 2019. Cynhwyswyd nifer o flaenoriaethau drafft trosfwaol yn y strategaeth:</p> <ol style="list-style-type: none"> <li>1. Gweithio i atal a lleihau trosedd ac ymddygiad gwrthgymdeithasol i gadw pobl sy'n byw, gweithio ac yn ymweld â'r Fro yn ddiogel ac yn rhydd rhag ofn trosedd.</li> <li>2. Gwella'r ffordd yr ydym yn cysylltu â'n cymunedau, yn eu cynnwys ac yn rhoi gwybodaeth iddynt, er mwyn cynyddu ymwybyddiaeth, y teimlad o berthyn a chydlynid cymunedol cadarnhaol yn y Fro.</li> <li>3. Gweithio i ddiogelu'r rhai mwyaf agored i niwed yn ein cymunedau.</li> <li>4. Cryfhau'r gwaith partneriaeth arloesol a rhannu gwybodaeth yn y Fro i wella effeithlonrwydd a chyfoethogi datrys problemau.</li> </ol> <p>Cynhaliwyd gweithdy gyda sefydliadau o bob rhan o'r Bartneriaeth i drafod yr amcanion a'r camau y dylid eu cynnwys yn y strategaeth ac i ffurfio ffocws y bartneriaeth. Cysylltwyd y rhain â gwaith y BGC i sicrhau eu bod yn cyd-fynd, ac i nodi cyfleoedd ar gyfer cydweithio.</p>

**Amcan Llesiant Pedwar – Diogelu, Gwella a Gwerthfawrogi ein Hamgylchedd  
Partner Arweiniol – Cyfoeth Naturiol Cymru**

Rhif	Cam Gweithredu Cynllun Llesiant	Swyddog Arweiniol	Cynnydd
Ev24.	<p>Cyflawni ymrwymiad ar y cyd i “wyrddu” ein hystadau drwy:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>- Ddatblygu gwell dealltwriaeth o'n statws carbon net ac archwilio cyfleoedd i leihau ein heffaith ar garbon (e.e. effeithlonrwydd ynni, ffynonellau ynni adnewyddadwy ac allyriadau o'n gweithgareddau a'r nwyddau a'r gwasanaethau a brynwn)</li> <li>- Adolygu sut rydym yn rheoli ein mannau agored i wneud y gorau o'u cyfraniad at wytnwch ecosystemau ac i wella bioamrywiaeth (e.e. rheoli peillwyr a bywyd gwyllt arall)</li> <li>- Lleihau'r perygl o lifogydd a llygredd dŵr</li> </ul>	<p><b>Nadia De Longhi (NDL) CNC</b></p>	<p>Mae gwaith mewn partneriaeth yn mynd rhagddo i ymdrin â chyfleoedd i weithio i wyrddu ystadau ar draws y BGC. Cydlynodd Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) arolwg holiadur sy'n asesu'r cyfleoedd ar gyfer enillion cyflym a chamau gweithredu peilot. Yn dilyn ymatebion, nodwyd cyfleoedd i gyflawni manteision arfaethedig ac archwilio allbynnau'r Grŵp Rheoli Asedau Rhanbarthol a'r potensial i gydweithio a gwneud y gorau o fanteision arfer gorau a nodwyd.</p> <p>Rhai gweithrediadau allweddol a wnaed gan bartneriaid hyd yn hyn yw:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>- Cychwyn y rhaglen REFIT i arwain at weithredu projectau ynni ar raddfa fawr i gyflawni arbedion ynni a charbon ar safleoedd y Bwrdd Iechyd gan gynnwys rhaglen Ysbyty Athrofaol Cymru, Llandochau ac Ysbyty'r Barri a rhaglen goleuadau LED;</li> <li>- Amrywiaeth o fannau gwyrdd a mentrau bywyd gwyllt yn BIPC&amp;F gan gynnwys Ein Perllan, dolydd gwyllt bychain, ardaloedd tyfu a phorthwyr adar/gwestai bygiau ayb ar draws safleoedd amrywiol;</li> <li>- Mae canllawiau arfer da yn cael eu paratoi ar uchafu buddion bioamrywiaeth a'r amgylchedd wrth osod tir;</li> <li>- Trafodaethau gyda CBM a BIP ynghylch rheoli lleiniau glas ac ardaloedd glaswelltog i wneud y mwyaf o fudd bioamrywiaeth;</li> <li>- Ailwampio'r cwrs golff ym Mharc Gwledig Porthceri, gwaith gwella pyllau a datblygu gofod dolydd</li> <li>- Er mwyn lleihau allbynnau carbon, newidiwyd goleuadau stryd mewn ardaloedd preswyl am rai LED yn 2018; mae project a gyllidwyd gan SALIX yn mynd yn ei flaen i drosi goleuadau priffyrdd i rai LED.</li> <li>- Gwnaed gwaith i ddad-ddofi darn o dir ym Mharc Gwledig Porthceri, gan greu cynefin newydd ar gyfer bywyd gwyllt.</li> </ul> <p>Yn rhanbarthol, ar draws Caerdydd a'r Fro, sefydlwyd project cydweithredu asedau trwy strategaeth genedlaethol Ystadau Cymru - gelwir y project yn 'Adolygiad Gwneud i Asedau Weithio' (MAWR). Derbyniwyd cyllid o £60,000 drwy'r Gronfa Cydweithio Asedau ac mae partneriaid wedi gweithio gydag</p>



**Amcan Llesiant Pedwar – Diogelu, Gwella a Gwerthfawrogi ein Hamgylchedd  
Partner Arweiniol – Cyfoeth Naturiol Cymru**

Rhif	Cam Gweithredu Cynllun Llesiant	Swyddog Arweiniol	Cynnydd
<b>Ev24 parhad</b>	- Deall a lliniaru ein heffeithiau ar ansawdd aer		<p>ymgyngorwyr i fapio data allweddol a chynhyrchu astudiaethau achos i lywio adroddiad adolygu asedau.</p> <p>Mae'r adolygiad wedi canolbwyntio ar yr hyn y gellir ei gyflenwi'n rhanbarthol:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>- Mapio Asedau Cyhoeddus</li> <li>- Datblygiadau a gwarediadau'r Project Asedau Cydweithredol</li> <li>- Projectau braenaru ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus cydgysylltiedig</li> <li>- Cyfnewid arfer da</li> </ul> <p>Yn ogystal, nodwyd manteision caled a meddal i'r rhanbarth:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>- Creu twf economaidd</li> <li>- Nodau Llesiant sy'n gysylltiedig â chynaliadwyedd cymdeithasol ac amgylcheddol</li> <li>- Darparu gwasanaethau integredig sy'n canolbwyntio ar y cwsmer</li> <li>- Darparu ystad gyhoeddus effeithiol ac effeithlon</li> </ul> <p>Cynhyrchwyd tri map o asedau sy'n dangos asedau ar draws Caerdydd a'r Fro, a nodwyd cyfleoedd ar gyfer cydweithredu asedau pellach ar draws y rhanbarth.</p>
<b>Ev25.</b>	Hyrwyddo cerdded a beicio i staff, preswylwyr ac ymwelwyr trwy rannu negeseuon a thrwy ddarparu cyfleusterau sy'n galluogi dewisiadau teithio llesol. Bydd y gwaith hwn yn cael ei wneud ar y cyd â'r Brifddinas-Ranbarth.	<p><b>Tom Porter (TP)</b> <b>BIP Caerdydd a'r Fro/Iechyd Cyhoeddus Cymru (Tîm IC Lleol)</b></p> <p><b>Kyle Phillips</b></p>	<p>Yn dilyn lansio Siarter Teithio Iach Caerdydd ym mis Ebrill 2019, datblygwyd Siarter Teithio Iach ddrafft ar gyfer Bro Morgannwg ym mis Mai 2019, i'w thrafod a'i mabwysiadu gan sefydliadau partner y sector cyhoeddus. Rhagwelir y bydd y Siarter yn cael ei lansio ym mis Hydref 2019, ac yna gweithredir yr ymrwymadau y cytunwyd arnynt. Hefyd, mae Siarter Teithio Trydydd Sector yn cael ei thrafod gyda GVS, gyda photensial i'w datblygu ar y cyd â C3SC a chynrychiolwyr o sefydliadau trydydd sector ar draws y rhanbarth.</p> <p>Bu cyswllt rheolaidd rhwng iechyd cyhoeddus a thîm trafndiaeth Cyngor y Fro ar gyflwyno cyfleusterau ychwanegol i hyrwyddo teithio llesol, gan gynnwys cwmpasu cyflwyniad Nextbikes yn Nwyrain y Fro, a chyfleoedd i weithio'n agosach gyda chydweithwyr trafndiaeth Cyngor Caerdydd ar ddylunio seilwaith beicio; a chafwyd mewnbwn iechyd cyhoeddus i ymgynghoriadau WelTAG ar gyfer cynlluniau trafndiaeth lleol.</p>

**Amcan Llesiant Pedwar – Diogelu, Gwella a Gwerthfawrogi ein Hamgylchedd  
Partner Arweiniol – Cyfoeth Naturiol Cymru**

Rhif	Cam Gweithredu Cynllun Llesiant	Swyddog Arweiniol	Cynnydd
			<p>Ariannwyd y project Llwybrau Gwyrdd - Rhwydwaith Ceffylau a Beiciau gan Lywodraeth Cymru o dan ENRaW (Galluogi Adnoddau Naturiol a Llesiant yng Nghymru) ac mae'n anelu at gynhyrchu cynllun i gyflenwi rhwydwaith o lwybrau marchogaeth pellter hir a beicio mynydd ar draws yr ardal. Bydd ardal y rhaglen yn cynnwys y Fro, Pen-y-bont ar Ogwr, Caerdydd, Rhondda Cynon Taf a Merthyr, a bydd yn cyd-fynd â Datganiad Ardal Canolbarth y De CNC.</p> <p>Bydd y project yn sefydlu cysylltiadau a chydweithrediadau gyda grwpiau defnyddwyr arfaethedig - ceffylau, beiciau a cherdded - i weithio gyda'i gilydd tuag at gyflenwi a chynaliadwyedd y llwybrau. Bydd y gwaith hwn yn ychwanegu at dwristiaeth, gweithgareddau corfforol a seilwaith gwyrdd yn y Fro.</p> <p>Cynlluniwyd proses dendro i sefydlu cynllun llogi beiciau ym Mhenarth, a bydd hyn yn galluogi cyfleoedd teithio llesol a chynaliadwy ym Mhenarth ac yn rhoi cyfle i sicrhau atebion trafndiaeth integredig rhwng Caerdydd a'r Fro.</p>
<b>Ev26.</b>	Gweithio gyda'r Brifddinas-Ranbarth i hyrwyddo a hwyluso teithio mwy cynaliadwy yn y Fro ac ar draws y rhanbarth a, lle bo angen, dylanwadu a lloio darparwyr trafndiaeth am well opsiynau trafndiaeth gyhoeddus.	<p><b>Emma Reed (ER)</b> <b>Pennaeth</b> <b>Gwasanaethau</b> <b>Cymdogaeth a</b> <b>Thrafnidiaeth</b></p> <p><b>CBM</b></p> <p><b>Kyle Phillips</b></p>	<p>Mae Prifddinas-Ranbarth Caerdydd yn symud ymlaen nifer o brojectau strategol yn benodol i Fro Morgannwg, gan gynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>- Cyfnewidfa Drafnidiaeth y Barri;</li> <li>- Cyffordd 34 yr M4 i goridor trafndiaeth yr A48 (gan gynnwys gorsaf barcfordd bosibl);</li> <li>- Coridor trafndiaeth cynaliadwy Penarth i Argae Caerdydd;</li> <li>- A, phwyntiau gwefru posibl i gerbydau trydan yn ein meysydd parcio</li> </ul> <p>Mae'r Awdurdod Trafndiaeth Rhanbarthol (RTA) yn galluogi mwy o rannu adnoddau, sgiliau a gwybodaeth.</p>
<b>Ev27.</b>	Adolygu asedau tir cyhoeddus a gwneud y gorau o'u potensial ar gyfer defnydd a gwerth cymunedol fel adnodd amgylcheddol.	<p><b>Nadia De Longhi</b> <b>(NDL)</b> <b>CNC</b></p>	<p>Gwneir gwaith mewn partneriaeth i ymdrin â chyfleoedd i wyrddu ystadau ar draws y BGC ac i nodi cyfleoedd o ran eu potensial defnydd cymunedol. Mae gwaith yn symud ymlaen ar nodi cyfleoedd i gymunedau adnabod a derbyn asedau yn eu hardaloedd trwy broses Trosglwyddo Asedau Cymunedol Cyngor Bro Morgannwg. Lle gall yr asedau hyn gynnig cyfle i fod o fudd i'r amgylchedd mewn cymunedau lleol, yna caiff y wybodaeth hon ei rhannu gyda'r gwaith sy'n mynd yn ei flaen trwy weithredu EV24.</p>

**Amcan Llesiant Pedwar – Diogelu, Gwella a Gwerthfawrogi ein Hamgylchedd  
Partner Arweiniol – Cyfoeth Naturiol Cymru**

Rhif	Cam Gweithredu Cynllun Llesiant	Swyddog Arweiniol	Cynnydd
Ev28.	<b>Gohirio</b> - Datblygu gwell dealltwriaeth ar draws ein sefydliadau o faterion amgylcheddol, effaith y modd rydym yn gweithio / darparu gwasanaethau, a chysylltiadau rhwng amgylchedd gwael a chymunedau difreintiedig.	<b>Nadia De Longhi (NDL)</b> <b>CNC</b>	Bydd hyn yn allbwn o waith arall, a bydd camau gweithredu penodol yn cael eu hystyried yn ddiweddarach.
Ev29.	Gweithio gyda busnesau a diwydiant lleol i wneud y gorau o fanteision economaidd ein hamgylchedd e.e. trwy dwristiaeth ac amaethyddiaeth, tra'n cymryd camau i leihau effeithiau negyddol a chwilio am gyfleoedd i wella amgylchedd y Fro.	<b>Marcus Goldsworthy (MG)</b> <b>Pennaeth Adfywio a Chynllunio</b>  <b>CBM</b>  <b>Phil Chappell</b>	Drwy'r project Cymunedau Gwledig Creadigol a Ariennir gan Ewrop, cynhaliwyd gweithgareddau peilot gyda busnesau yn ardaloedd arfordirol y Fro, gan gynnwys: arallgyfeirio ffermydd Rhwydwaith Bach, datblygu gwerysyla, datblygu canllawiau Cynllunio Atodol ar dwristiaeth ac adeiladau gwledig segur a hyrwyddo cyfleoedd ynni adnewyddadwy.
Ev30.	<b>Gohirio</b> - Archwilio sut y gall polisiau ac arferion caffael gefnogi'r economi leol a diogelu'r amgylchedd lleol.	<b>CNC/ Partner Gwirfoddol</b>	Camau gweithredu wedi'u gohirio, ac i'w hystyried ymhellach mewn gweithdy BGC.

**Amcan Llesiant Pedwar – Diogelu, Gwella a Gwerthfawrogi ein Hamgylchedd  
Partner Arweiniol – Cyfoeth Naturiol Cymru**


Rhif	Cam Gweithredu Cynllun Llesiant	Swyddog Arweiniol	Cynnydd
Ev31.	Gweithio drwy bartneriaeth Bwyd y Fro i ennill statws Dinasoedd Bwyd Cynaliadwy, gan sicrhau bod gennym ddealltwriaeth gyffredin o'r cyfraniad y gall bwyd ei wneud i bob agwedd ar lesiant a bod gan y Fro amgylchedd bwyd cynaliadwy o ansawdd sy'n cefnogi ein heconomi, amaethyddiaeth a thwristiaeth.	<b>Rhiannon Urquhart (RU)</b> <b>BIP Caerdydd a'r Fro/Iechyd</b> <b>Cyhoeddus Cymru (Tîm IC Lleol)</b> <b>(Grŵp Llywio Bwyd y Fro)</b>	Diweddarwyd y map asedau bwyd ac mae'r gweithgarwch yn cael ei fapio yn erbyn meini prawf Efydd Dinasoedd Cynaliadwy, gyda'r bwriad o gyflwyno cais aelodaeth i'r rhaglen erbyn yr Hydref.  Cyflwynwyd cais am arian i'r GGLI ar gyfer Cymunedau Gwledig Creadigol i gefnogi datblygu llwyfan ar y we i gefnogi gweithgareddau bwyd a busnesau yn y Fro, o dan faner Bwyd y Fro.

## Atodiad B: Ein Prif Dystiolaeth

### Newid mewn Poblogaeth



#### Ein Poblogaeth:

Yn ôl amcangyfrifon canol blwyddyn 2017 yn seiliedig ar ddata Cyfrifiad 2011, roedd poblogaeth Bro Morgannwg ychydig dros 130,000. Fel y dangosir yn **Ffigur A**, mae'r mwyafrif o breswylwyr y Fro, 53,562, yn byw yn y Barri, mae 39,424 o breswylwyr yn byw yng Ngorllewin y Fro ac mae 37,704 yn byw yn Nwyrain y Fro. O'r preswylwyr, mae tua 51.4% yn fenywod a 48.6% yn ddynion. Mae proffil oedran Bro Morgannwg yn debyg i gyfartaledd Cymru; mae'r mwyafrif o'r bobl, 60.8%, yn 16-64 oed, mae 20.7% yn 65 oed a throsodd ac mae 18.5% rhwng 0 a 15 oed.



### Ein Poblogaeth yn y Dyfodol:

Dengys rhagamcanion poblogaeth yn seiliedig ar amcangyfrifon 2014 y bydd mwyafrif poblogaeth y Fro, sef 53%, yn 16-64 oed erbyn 2039. Rhagwelir fodd bynnag y bydd cynnydd sylweddol yn y ganran o bobl 65 oed a throsodd; gweler y cynnydd sylweddol hwn yn **Ffigur B**. Erbyn 2039, amcangyfrifir y bydd 30% o boblogaeth y Fro yn 65 oed a throsodd. Yn yr un modd, fel y dangosir yn **Ffigur C**, rhagwelir y bydd gostyngiad yng nghanran y boblogaeth rhwng 0 a 15 oed, gyda rhagamcan o 17% rhwng 0 a 15 oed.



## Addysg a'r Economi

### Incwm a Diweithdra


Yn dilyn tueddiadau yn y DU a Chymru, fel y dangosir yn **Ffigur D**, bu'r gyfradd ddiweithdra ym Mro Morgannwg yn gostwng o flwyddyn i flwyddyn ers mis Medi 2013. Ers mis Rhagfyr 2017, mae'r gyfradd diweithdra wedi bod yn is na chyfartaledd Cymru a'r DU, ac ym mis Rhagfyr 2018, amcangyfrifwyd bod 3.4% o bobl ym Mro Morgannwg yn ddi-waith.

Yn yr un modd, mae Bro Morgannwg wedi dilyn tueddiad Cymru o ran y newid mewn incwm gwario dros amser. Fel y dangosir yn **Ffigur E**, bu cyfartaledd y Fro a Chymru yn cynyddu'n gyson ers 2000. Er bod yr incwm gwario cyfartalog yn y Fro wedi perfformio'n gyson uwchlaw cyfartaledd Cymru, ers 2013 bu'r cyfartaledd incwm gwario yn y Fro islaw neu'n cyfateb i gyfartaledd Cymru. Dengys y data diweddaraf mai £15,803 yw'r incwm gwario cyfartalog i'r Fro, a'r incwm gwario cyfartalog i Gymru yw £15,814.

**Ffigur D: Newid yn y raddfa diweithdra**

#### Change in Unemployment Rate


● Great Britain ● Vale of Glamorgan ● Wales



**Ffigur E: Newid mewn incwm gwario aelwydydd**

#### Change in household disposable income


● Disposable Income Vale of Glamorgan: ● Disposable Income Wales Average:




## Prydau Ysgol am Ddim

Er bod perfformiad wedi bod yn gwella flwyddyn ar ôl blwyddyn ers 2010 pan gyflawnodd 19% o ddisgyblion Cyfnod Allweddol 4 sy'n gymwys i gael Prydau Ysgol am Ddim (PYDd) y Dangosydd Pwnc Craidd, mae bwlch sylweddol o hyd yng nghyrhaeddiad y rhai sy'n gymwys i gael PYDd a rhai nad ydynt yn gymwys i gael PYDd yn y Fro. Yn 2016, cyflawnodd 46% o ddisgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim y Dangosydd Pwnc Craidd, tra cyflawnodd 71% o ddisgyblion nad oeddent yn gymwys i gael PYDd y Dangosydd Pwnc Craidd.

**Ffigur F: Canran a gyflawnodd y Dangosydd Pwnc Craidd - PYDd**



**Ffigur G: Canran a gyflawnodd y Dangosydd Pwnc Craidd – heb fod yn PYDd**






## Iechyd a Chymunedau


### Gwirfoddoli

Fel y gwelir yn **Ffigur H**, o gymharu Bro Morgannwg â gweddill Cymru, gwelir bod y Fro'n perfformio uwchlaw cyfartaledd Cymru o safbwynt canran yr oedolion sy'n gwirfoddoli. Yn 2017, amcangyfrifwyd bod 31% o oedolion 16 oed a hŷn yn gwirfoddoli yn y Fro, o gymharu ag amcangyfrif o 28% o oedolion yng Nghymru. Y gyfran uchaf o oedolion a oedd yn gwirfoddoli ar draws Cymru, 35%, oedd y rhai rhwng 65 a 74 oed.



## Unigrwydd



Roedd canran y bobl a ddywedodd eu bod yn unig ym Mro Morgannwg 14%, ychydig yn is na chyfartaledd Cymru, sef 14%. Daw'r data hwn o Arolwg Cenedlaethol Cymru, ac mae'n dibynnu ar sampl o 1,000 o bobl. Yn nodedig yn 2017, roedd canran y bobl a ddywedodd eu bod yn unig yn y Fro yn sylweddol uwch, gyda 21% yn dweud eu bod yn unig, 5% yn uwch na chyfartaledd Cymru, sef 17%. Yn ddiddorol, y rhai rhwng 16-24 oed oedd y gyfran uchaf o bobl, 21%, a ddywedodd eu bod yn unig ar draws Cymru yn 2018.



## Iechyd Oedolion

Fel y gwelir yn **Ffigur J**, dim ond 26.52% o oedolion y Fro yn 2017-18 a ddywedodd eu bod yn bwyta pum dogn o ffrwythau a llysiau bob dydd. Er bod y ffigur hwn yn uwch na chyfartaledd cenedlaethol Cymru o 23.8% a bod y Fro yn perfformio'n gymharol dda o'i chymharu ag ardaloedd ar draws Cymru, efallai ei bod yn fater o bryder fod y data tueddiadau yn dangos bod y ganran sy'n bwyta pum dogn o ffrwythau a llysiau y dydd wedi bod yn gostwng ers 2012-13.


Yn ddi-ddorol, mae Bro Morgannwg yn perfformio'n gymharol dda o'i chymharu ag ardaloedd eraill ar draws Cymru o ran canran yr oedolion sy'n bodloni canllawiau gweithgarwch corfforol. Fel y gwelir yn **Ffigur K**, mae'r ganran sy'n nodi eu bod yn bodloni canllawiau gweithgarwch corfforol yn 2017-18 wedi cynyddu'n sylweddol ers 2014-15. Yn 2017-18, adroddodd 56.2% o oedolion yn y Fro eu bod yn bodloni canllawiau gweithgarwch corfforol, ychydig yn uwch na chyfartaledd Cymru o 53.2%.



## Amgylchedd a Thrafnidiaeth

### Ansawdd Aer

Bu ansawdd aer ym Mro Morgannwg yn gwella ers 2007, gyda lefelau NO<sub>2</sub> Nitrogen deuocsid, y llygrwr sy'n gysylltiedig yn benodol ag ardaloedd adeiledig a ffyrdd, wedi bod yn gostwng dros amser. Fel y dangosir yn **Ffigur L**, er gwaethaf cynnydd yn 2016, mae cyfraddau NO<sub>2</sub> yn y Fro wedi bod yn gostwng o flwyddyn i flwyddyn ac yn 2017 roedd cyfraddau NO<sub>2</sub> yn 9.36µg/m<sup>3</sup>.




## Allyriadau CO<sub>2</sub>

Mewn cymhariaeth ag ardaloedd eraill Cymru, mae gan Fro Morgannwg gyfanswm cymharol uchel o allyriadau CO<sub>2</sub>. Fel y gwelir yn **Ffigur M**, mae data ar gyfer 2016 yn dangos bod y Fro yn y pumed ardal allyriadau CO<sub>2</sub> uchaf yng Nghymru, yn gyfrifol am allyrru 1,134 o Gilotonau o CO<sub>2</sub>. Gwaethygir y sefyllfa hon ymhellach pan gaiff y data hwn ei rannu yn ôl tunelli o allyriadau CO<sub>2</sub> fesul preswlydd. Fel y gwelir yn **Ffigur N**, mae data ar gyfer 2016 yn dangos mai'r Fro oedd y drydedd ardal Awdurdod Lleol uchaf yng Nghymru o ran allyriadau; cafwyd 8.80 tonnelli o allyriadau o CO<sub>2</sub> fesul preswlydd, ychydig yn uwch na chyfartaledd Cymru o 8 tonnelli o CO<sub>2</sub> fesul preswlydd.

Gellir esbonio lefelau uwch o allyriadau CO<sub>2</sub> yn y Fro yn rhannol oherwydd presenoldeb Maes Awyr Rhyngwladol Caerdydd, Diwydiant Trwm a sector amaethyddol mawr.


**Ffigur M: Cyfanswm allyriadau CO<sub>2</sub>**

Total CO<sub>2</sub> emissions




**Ffigur N: Tunelli allyriadau CO<sub>2</sub> fesul preswlydd**

Tonnes CO<sub>2</sub> emissions per resident



## Patrymau Cymudo

Gan adlewyrchu'r boblogaeth gynyddol ym Mro Morgannwg, mae'r niferoedd o breswylwyr sy'n economaidd weithgar, a nifer y bobl sy'n gweithio yn y Fro ei hun, wedi bod yn tyfu'n gyson o flwyddyn i flwyddyn. Fel y gwelir yn **Ffigur O**, yn 2018, amcangyfrifwyd bod cyfanswm o 63,100 o breswylwyr yn economaidd weithgar yn y Fro; yn ddi-ddorol mae'r mwyafrif, 31,900 o breswylwyr, hefyd yn gweithio yn y Fro ei hun. O'r preswylwyr hynny sy'n cymudo y tu allan i'r Fro, mae'r mwyafrif yn cymudo i awdurdodau cyfagos; mae 22,200 o breswylwyr yn cymudo i Gaerdydd, 2,600 i Ben-y-bont ar Ogwr a 1,500 i Rhondda Cynon Taf.



## Atodiad C: Ein Mesurau Perfformiad

Rhif Dangosydd	Dangosydd	Ffynhonnell	Lleol/ Cenedlaethol	Maes Llesiant	Amcan Llesiant	Dangosydd BGC cyfredol	Dangosydd BGC Caerdydd	Rhif Dangosydd Llesiant Cenedlaethol	Dangosydd Mannau Llewyrchus
<b>Prif Ddangosyddion a Awgrymir</b>									
1	Canran sy'n teimlo y gallant ddylanwadu ar benderfyniadau sy'n effeithio ar eu hardal leol	Arolwg Cenedlaethol Cymru <a href="https://gweddiill.gov.wales/statistics-and-research/national-survey/?skip=1&amp;lang=cy">https://gweddiill.gov.wales/statistics-and-research/national-survey/?skip=1&amp;lang=cy</a>	Lleol	Cymdeithasol	Amcan 1	Ie	Ie	Dangosydd 23	
2	Canran y bobl sy'n gwirfoddoli	Arolwg Cenedlaethol Cymru <a href="https://gweddiill.gov.wales/statistics-and-research/national-survey/?skip=1&amp;lang=cy">https://gweddiill.gov.wales/statistics-and-research/national-survey/?skip=1&amp;lang=cy</a>	Lleol	Cymdeithasol	Amcan 1	Na	Ie	Dangosydd 28	
3	Pobl yn cytuno eu bod yn perthyn i'r ardal; bod pobl o wahanol gefndiroedd yn cyd-dynnu'n dda; a bod pobl yn parchu ei gilydd	Arolwg Cenedlaethol Cymru <a href="https://gweddiill.gov.wales/statistics-and-research/national-survey/?skip=1&amp;lang=cy">https://gweddiill.gov.wales/statistics-and-research/national-survey/?skip=1&amp;lang=cy</a>	Lleol	Cymdeithasol	Amcan 1	Na	Ie	Dangosydd 27	
4	Canran y bobl sy'n fodlon ar eu gallu i gyrraedd / cyrchu'r cyfleusterau a'r gwasanaethau sydd eu hangen arnynt	Arolwg Cenedlaethol Cymru <a href="https://gweddiill.gov.wales/statistics-and-research/national-survey/?skip=1&amp;lang=cy">https://gweddiill.gov.wales/statistics-and-research/national-survey/?skip=1&amp;lang=cy</a>	Lleol	Cymdeithasol	Amcan 1	Na	Na	Dangosydd 24	

5	Canran o 16+ sy'n unig yn ôl oedran a rhyw	Arolwg Cenedlaethol Cymru <a href="https://gweddill.gov.wales/statistics-and-research/national-survey/?skip=1&amp;lang=cy">https://gweddill.gov.wales/statistics-and-research/national-survey/?skip=1&amp;lang=cy</a>	Lleol	Cymdeithasol	Amcan 1	Na	Na		le
6	Cyfradd diweithdra'r boblogaeth economaidd weithgar 16+ (seiliedig ar fodel)	Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth (ALI) / Cyfrif Hawlwyr (is-ALI) <a href="https://www.nomisweb.co.uk/reports/lmp/la/1946157396/report.aspx#tabempunemp">https://www.nomisweb.co.uk/reports/lmp/la/1946157396/report.aspx#tabempunemp</a>	Lleol	Economaidd	Amcan 2	Na	le		le
7	Incwm Gwario Gros Aelwydydd y pen	ONS/NOMIS <a href="https://www.ons.gov.uk/economy/regionalaccounts/grossdisposablehouseholdincome/datasets/regionalgrossdisposablehouseholdincomegdhbylocalauthorityintheuk">https://www.ons.gov.uk/economy/regionalaccounts/grossdisposablehouseholdincome/datasets/regionalgrossdisposablehouseholdincomegdhbylocalauthorityintheuk</a>	Lleol	Economaidd	Amcan 2	Na	le	Dangosydd 10	
8	Swyddi gweithwyr gyda chyflog fesul awr islaw'r cyflog byw	ONS (Data y gofynnir amdanynt gan y defnyddiwr)		Economaidd	Amcan 2	Na	le		
9	Canran yr holl ddisgyblion o oedran ysgol gorfodol sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim	Addysg	Lleol	Economaidd	Amcan 2	le	Na		
10	Canran y bobl sy'n byw mewn aelwydydd mewn tlodi incwm o gymharu â chanolrif y DU a fesurir ar gyfer plant, oedran gweithio a'r rhai o oedran pensiwn	Set ddata aelwydydd islaw'r incwm cyfartalog <a href="https://www.gov.uk/government/collections/households-below-average-income-hbai--2">https://www.gov.uk/government/collections/households-below-average-income-hbai--2</a>	Cenedlaethol	Economaidd	Amcan 2	Na	Na	Dangosydd 18	



11	Llesiant meddyliol: plant ac oedolion ifanc ac oedolion	Iechyd Cyhoeddus Cymru	Lleol	Cymdeithasol	Amcan 3	Ie	Ie	Dangosydd 29	Ie
12	Mesur datblygiad plant ifanc	Proffil Cyfnod Sylfaen <a href="https://llyw.cymru/addysg-a-sgiliau?_ga=2.33305022.1299605307.1563802304-1289116305.1554197664">https://llyw.cymru/addysg-a-sgiliau?_ga=2.33305022.1299605307.1563802304-1289116305.1554197664</a>	Lleol	Cymdeithasol	Amcan 3	Na	Na	Dangosydd 6	
13	Allyriadau CO <sub>2</sub> y pen	BEIS		Amgylcheddol	Amcan 4	Na	Ie		Ie
14	Ydych chi wedi mynychu digwyddiad celfyddydol yn ystod y flwyddyn ddiwethaf? Ydych chi wedi ymweld â lle hanesyddol yn ystod y flwyddyn ddiwethaf? Ydych chi wedi ymweld ag amgueddfa yn ystod y flwyddyn ddiwethaf?	Arolwg Cenedlaethol Cymru <a href="https://gweddiill.gov.wales/statistics-and-research/national-survey/?skip=1&amp;lang=cy">https://gweddiill.gov.wales/statistics-and-research/national-survey/?skip=1&amp;lang=cy</a>	Lleol	Diwylliannol		Na	Ie	Dangosydd 35	
15	Pobl sy'n gallu siarad Cymraeg	Arolwg Cenedlaethol Cymru <a href="https://gweddiill.gov.wales/statistics-and-research/national-survey/?skip=1&amp;lang=cy">https://gweddiill.gov.wales/statistics-and-research/national-survey/?skip=1&amp;lang=cy</a>	Lleol	Diwylliannol		Na	Ie	Dangosydd 37	
16	Pobl yn teimlo'n ddiogel (yn y cartref, cerdded yn yr ardal leol, a theithio)	Arolwg Cenedlaethol Cymru <a href="https://gweddiill.gov.wales/statistics-and-research/national-survey/?skip=1&amp;lang=cy">https://gweddiill.gov.wales/statistics-and-research/national-survey/?skip=1&amp;lang=cy</a>	Lleol	Cymdeithasol		Na	Ie	Dangosydd 25	Ie
17	Cyfradd yr holl droseddau fesul 1000 o'r boblogaeth	Heddlu/Infobase Cymru	Lleol	Cymdeithasol		Ie	Na		

18	Disgwyliad oes iach adeg geni (gwryw a benyw) gan gynnwys y bwloch rhwng y lleiaf a'r mwyaf difreintiedig	Iechyd Cyhoeddus Cymru		Cymdeithasol		le	le	Dangosydd 2	le
19	Disgyblion Cyfnod Allweddol 2 yn Cyflawni'r Lefel Disgwyliedig (L4+) yn y Dangosydd Pwnc Craidd [gan gynnwys y bwloch rhwng PYDd v heb fod yn PYDd ar lefel ALI]	StatsCymru <a href="https://statswales.gov.wales/Catalogue/education-and-Skills/Schools-and-Teachers/Examinations-and-Assessments/Key-Stage-2">https://statswales.gov.wales/Catalogue/education-and-Skills/Schools-and-Teachers/Examinations-and-Assessments/Key-Stage-2</a>	Lleol	Economaidd		le	le		
20	Disgyblion Cyfnod Allweddol 4 yn Cyflawni'r Trothwy Lefel 2 gan gynnwys Saesneg / Cymraeg a Mathemateg [gan gynnwys y bwloch rhwng PYDd v heb fod yn PYDd ar lefel ALI]	StatsCymru <a href="https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Education-and-Skills/Schools-and-Teachers/Examinations-and-Assessments/Key-Stage-4">https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Education-and-Skills/Schools-and-Teachers/Examinations-and-Assessments/Key-Stage-4</a>	Lleol	Economaidd		le	le	Dangosydd 7	le
<b>Mesurau i'w Datblygu</b>									
21	Dangosydd Tlodi Bwyd	I'w gadarnhau							
22	Dangosydd Tlodi Tanwydd	I'w gadarnhau							

<b>Is-Fesurau a Awgrymir</b>									
Rhif Dangosydd	Dangosydd	Ffynhonnell	Lleol/Cenedlaethol	Maes Llesiant	Amcan Llesiant	Dangosydd BGC cyfredol	Dangosydd BGC Caerdydd	Rhif Dangosydd Lleisiant	Dangosydd Mannau

								Cenedlaethol	Llewyrchus
1	Bodlonrwydd bywyd ymysg pobl hŷn			Cymdeithasol	Amcan 1				
2	Canran y bobl sy'n fodlon â'r ardal leol fel lle i fyw	Arolwg Cenedlaethol Cymru <a href="https://gwedhill.gov.wales/statistics-and-research/national-survey/?skip=1&amp;lang=cy">https://gwedhill.gov.wales/statistics-and-research/national-survey/?skip=1&amp;lang=cy</a>	Lleol	Cymdeithasol	Amcan 1	Na	Na	Dangosydd 26	
3	Swyddi gweithwyr gyda chyflog fesul awr islaw'r cyflog byw	ONS (Data y gofynnir amdanynt gan y defnyddiwr)		Economaidd	Amcan 2	Na	le		
4	Hawlwr JSA tymor hir (h.y. dros 12 mis) (Canran hawlwr JSA ers dros 12 mis)	NOMIS	Lleol	Economaidd	Amcan 2	le	le		
5	Canran y plant 4 i 5 oed sydd â phwysau iach	Iechyd Cyhoeddus Cymru		Cymdeithasol	Amcan 3	le	le		
6	Y nifer sy'n derbyn MMR2 erbyn eu bod yn 4 oed (brechiad ail ddos clwy'r pennau, y frech goch, rwbela)	Iechyd Cyhoeddus Cymru		Cymdeithasol	Amcan 3	le	le		
7	Nifer yr aelwydydd â phlant dibynnol sy'n statudol ddigartref	Tai	Lleol	Cymdeithasol	Amcan 3	le	le		
8	Canran y plant Dechrau'n Deg sy'n cyrraedd cerrig	Dechrau'n Deg Llywodraeth Cymru <a href="https://gwedhill.gov.wales/statistics-and-research/national-survey/?skip=1&amp;lang=cy">https://gwedhill.gov.wales/statistics-and-research/national-survey/?skip=1&amp;lang=cy</a>	Lleol	Cymdeithasol	Amcan 3	le	Na		

	milltir datblygiadol yn 3 oed	<a href="https://tistics-and-research/flying-start/?skip=1&amp;lang=cy">tistics-and-research/flying-start/?skip=1&amp;lang=cy</a>							
9	Cyfradd y rhai sy'n mynd i mewn i'r system cyfiawnder ieuentid am y tro cyntaf fesul 1000 o'r boblogaeth	YOS a MOJ	Lleol	Cymdeithasol	Amcan 3	le	Na		le
10	Nifer y lleoedd gofal plant cofrestredig sydd ar gael i blant ifanc ym Mro Morgannwg	CSA	Lleol	Cymdeithasol	Amcan 3	le	Na		
11	Canran y genedigaethau byw pwysau geni isel	Cronfa Ddata Cymunedol Iechyd Plant Cenedlaethol <a href="https://llyw.cymru/ystadegau-ac-ymchwil?_ga=2.66812078.1299605307.1563802304-1289116305.1554197664">https://llyw.cymru/ystadegau-ac-ymchwil?_ga=2.66812078.1299605307.1563802304-1289116305.1554197664</a>	Lleol	Cymdeithasol	Amcan 3	le	le	Dangosydd 1	
12	Ôl-troed ecolegol y Fro	Adroddiad ôl troed ecolegol Cymru <a href="https://llyw.cymru/?_ga=2.66812078.1299605307.1563802304-1289116305.1554197664">https://llyw.cymru/?_ga=2.66812078.1299605307.1563802304-1289116305.1554197664</a>	Lleol	Amgylcheddol	Amcan 4	Na	Na	Dangosydd 14	le
13	Lefelau llygredd Nitrogen Deuocsid (NO <sub>2</sub> ) a deunydd gronynnol (PM10, PM2.5) yn yr awyr	Llywodraeth Cymru		Amgylcheddol	Amcan 4	Na	Na		

14	Patrymau cymudo ym Mro Morgannwg	StatsCymru <a href="http://www.valeofglamorgan.gov.uk/Documents/Our%20Council/Achieving%20our%20vision/Public-Services-Board/Well-being-Assessment/FINAL-ENGLISH-VERSIONS/Maximising-Opportunities-and-Attainment-Evidence-Report-Version-at-April-2017.pdf">http://www.valeofglamorgan.gov.uk/Documents/Our%20Council/Achieving%20our%20vision/Public-Services-Board/Well-being-Assessment/FINAL-ENGLISH-VERSIONS/Maximising-Opportunities-and-Attainment-Evidence-Report-Version-at-April-2017.pdf</a>	Lleol	Amgylcheddol	Amcan 4	Na	Na		
15	Cyfanswm yr ymwelwyr i Fro Morgannwg at ddibenion Twristiaeth (fel y'u mesurir gan arolwg STEAM)	Arolwg STEAM (ar gael ym mis Gorffennaf)	Lleol	Diwylliannol		le	Na		
16	Canran y bobl 65+ oed a ddywedodd bod eu hiechyd cyffredinol yn dda iawn neu'n dda	Iechyd Cyhoeddus Cymru	Lleol	Cymdeithasol		le	le		
17	Cyfradd troseddau a digwyddiadau sy'n gysylltiedig â cham-drin domestig	Heddlu/Infobase Cymru	Lleol	Cymdeithasol		Na	Na		le
18	Canran y cleientiaid sy'n defnyddio gwasanaethau camddefnyddio sylweddau a ddywedodd eu bod wedi gwella ansawdd eu bywyd	APB Caerdydd a'r Fro	Lleol	Cymdeithasol		Na	le		

19	Yfed Alcohol Uwchlaw'r Canllawiau Cenedlaethol	Arolwg Cenedlaethol Cymru <a href="https://gweddiill.gov.wales/statistics-and-research/national-survey/?skip=1&amp;lang=cy">https://gweddiill.gov.wales/statistics-and-research/national-survey/?skip=1&amp;lang=cy</a>		Cymdeithasol		Na	Na		
20	Canran yr oedolion sy'n bwyta 5 dogn neu fwy o ffrwythau a llysiau bob dydd	Arolwg Cenedlaethol Cymru <a href="https://gweddiill.gov.wales/statistics-and-research/national-survey/?skip=1&amp;lang=cy">https://gweddiill.gov.wales/statistics-and-research/national-survey/?skip=1&amp;lang=cy</a>	Lleol	Cymdeithasol		Na	le		
21	Canran yr oedolion sy'n weithgar am lai na 30 munud yr wythnos	StatsCymru <a href="https://statswales.gov.wales/Catalogue/Cenedlaethol-Survey-for-Wales/Sport-and-Recreation/percentageofpeoplewhoparticipateinsport3ormoretimesaweek-by-localauthority-year">https://statswales.gov.wales/Catalogue/Cenedlaethol-Survey-for-Wales/Sport-and-Recreation/percentageofpeoplewhoparticipateinsport3ormoretimesaweek-by-localauthority-year</a>	Lleol	Cymdeithasol		Na	le	(Dangosydd 38)	
22	Canran yr oedolion sy'n ysmegu ar hyn o bryd	Arolwg Cenedlaethol Cymru <a href="https://gweddiill.gov.wales/statistics-and-research/national-survey/?skip=1&amp;lang=cy">https://gweddiill.gov.wales/statistics-and-research/national-survey/?skip=1&amp;lang=cy</a>	Lleol	Cymdeithasol		le	le		
23	Canran y boblogaeth 16-64 oed sydd wedi cymhwyso i lefel NVQ4 + (lefel gradd neu gyfwerth)	NOMIS <a href="https://www.nomisweb.co.uk/reports/lmp/la/1946157396/report.aspx#tabempunemp">https://www.nomisweb.co.uk/reports/lmp/la/1946157396/report.aspx#tabempunemp</a>	Lleol	Economaidd		Na	le		
24	Ymadawyr ysgol Blwyddyn 11 a Blwyddyn 13 nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant	InfoBase Cymru <a href="http://www.infobasecymru.net/IAS/themes/children,youngpeopleandeducation/compulsoryeducation/tabular?viewId=27&amp;geold=1&amp;=subsetId">http://www.infobasecymru.net/IAS/themes/children,youngpeopleandeducation/compulsoryeducation/tabular?viewId=27&amp;geold=1&amp;=subsetId</a>	Cenedlaethol	Economaidd		le	le	Dangosydd 22	

